**Vaughan Gething AC/AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

**Kirsty Williams AC/AM**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-P-VG-1242-19

Lynne Neagle AM
Cadair
Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

2 Mai 2019

Annwyl Lynne,

Rydym wedi ymrwymo i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar ein cynnydd tuag at weithredu ein hymateb i'r adroddiad Cadernid Meddwl erbyn diwedd mis Mawrth 2019. Rydym yn falch o allu adrodd bod cynnydd da wedi'i wneud mewn nifer o feysydd allweddol, er enghraifft sefydlu'r Rhaglen Dull Ysgol Gyfan a chyhoeddi buddsoddiad sylweddol o £7.1 miliwn yn 2019-2020 i ategu'r camau a nodwyd gennym yn yr ymateb hwn. Rydym wedi parhau i ymgysylltu'n weithredol â rhanddeiliaid hefyd i sicrhau bod hyn yn diwallu eu hanghenion ac yn cael ei ddarparu mewn modd cydgysylltiedig ac aml-asiantaeth.

O ystyried pob agwedd, credwn y bydd ein gwaith yn y maes hwn yn cyflawni galwadau'r Pwyllgor am weithredu yn Cadernid Meddwl ac yn cyflawni ein rhwymedigaethau i iechyd meddwl a lles emosiynol plant fel y nodir yn Ffyniant i Bawb; Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl; Strategaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl ac adroddiadau Pwyllgor cysylltiedig.

Mae'r argymhellion a'r is-gamau cysylltiedig yn adroddiad Cadernid Meddwl yn uchelgeisiol ac yn ffurfio rhaglen waith sylweddol. Yn y cyd-destun hwn, mae'n bwysig cydnabod y bu tri ymchwiliad proffil uchel arall gan Bwyllgor Craffu'r Cynulliad ac adroddiadau cysylltiedig yn ystod y flwyddyn ddiwethaf yn galw am well ffocws a chynyddu cyflymder gwelliant mewn meysydd iechyd meddwl penodol – gyda dau ymholiad cysylltiedig arall yn dechrau ym mis Chwefror. Felly, er y gallwn eich sicrhau mai iechyd meddwl a lles emosiynol ein plant a'n pobl ifanc yw ein maes blaenoriaeth allweddol, rydym wedi mynd ati fesul cam i weithredu'r camau yn ein hymateb i Cadernid Meddwl. Mae hyn er mwyn sicrhau cydlyniad yn ein gweithgarwch i gyflawni ein hymateb i adroddiadau pwyllgor perthnasol ac er mwyn galluogi partneriaid i ymateb yn gydlynol ac yn raddol i'r blaenoriaethau amrywiol sydd yn yr adroddiadau.

Adlewyrchir hyn yn y llythyr hwn lle rydym yn rhoi diweddariadau i'n hymatebion ar bob un o'r argymhellion Cadernid Meddwl. Fe welwch fod yna feysydd lle rydym wedi canolbwyntio



Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

adnoddau a gweithgarwch arnynt i ddechrau, ac eraill lle rydym yn egluro ein gweithgarwch arfaethedig i'w gwblhau yn y tymor hwy.

**Dull ysgol gyfan**

Ers mis Medi 2018, pan wnaethom gyhoeddi sefydlu'r Cyd-grŵp Gweinidogol ar Ddull Ysgol Gyfan, rydym wedi canolbwyntio ar sefydlu'r isadeiledd a rhaglen waith ar gyfer y dull ysgol gyfan o weithredu mewn perthynas ag iechyd meddwl a lles emosiynol, ac rydym yn credu ei bod yn cwmpasu'r materion a drafodwyd yn Cadernid Meddwl yn gyffredinol. Mae'r naratif hwn yn cynnwys nifer o ddatganiadau "byddwn yn" sy'n cyflwyno camau ymarferol y bwriadwn eu cymryd i weithio gydag ysgolion, byrddau iechyd a phartneriaid eraill i gefnogi'r dull ysgol gyfan.

**Bwrw iddi â gweithgarwch mewn partneriaeth**

Yn dilyn dadl yng nghyfarfod llawn mis Gorffennaf 2018 ar Cadernid Meddwl ac ymateb Llywodraeth Cymru, fe wnaethom ystyried dros yr haf beth arall sydd ei angen i sicrhau bod y system gyfan o wasanaethau iechyd meddwl a lles emosiynol, gan weithio o amgylch yr ysgol fel canolbwynt y gymuned, yn gallu diwallu anghenion plant a phobl ifanc yn effeithiol.

O ganlyniad, ar 7 Medi 2018 fe wnaethom gyhoeddi sefydlu Cyd-grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol i gynghori a chefnogi gweithredu 'cynnig' cyson ar gyfer plant a phobl ifanc gan y rhai sy'n ymwneud â'r maes mewn ysgolion a thrwy weithio gydag ysgolion. Roedd hyn yn golygu sefydlu mecanweithiau llywodraethu ac ymgysylltu cadarn er mwyn sicrhau atebolrwydd a chyflawni'r agenda hon.

Rydym yn hyderus bod gan y Grŵp y gynrychiolaeth amrywiol ac angenrheidiol o uwch-randdeiliaid sydd ei hangen i sbarduno'r gwaith sydd wedi deillio o Cadernid Meddwl yn ei flaen, a gweithgarwch arall, fel rhan o ddull ysgol gyfan a system gyfan. Rydym yn arbennig o falch eich bod chi, fel Cadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, a Chomisiynydd Plant Cymru wedi cytuno i ymuno â'r Grŵp fel sylwedyddion gyda hawliau cyfranogi llawn ac rydym yn gwerthfawrogi'r cyngor a'r her a geir gennych. Mae'r Grŵp wedi cyfarfod ddwywaith ers ei sefydlu ym mis Medi 2018 (Hydref 2018 a Mawrth 2019). Y bwriad yw y bydd y grŵp yn cyfarfod deirgwaith y flwyddyn. Mae aelodaeth lawn y grŵp ynghlwm yn atodiad B.

Caiff y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ei lywio a'i gynghori gan ddau grŵp allweddol: Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid (SRG) a Grŵp Rhanddeiliaid Ieuenctid. Mae'r grwpiau hyn yn cynghori'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ac yn rhoi safbwyntiau'r rhai sy'n ymgysylltu â phobl ifanc, addysg a gwasanaethau iechyd meddwl yn rheolaidd. Mae'r Grŵp Cyfeirio'n cyfarfod deirgwaith y flwyddyn gydag amserlen debyg i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ac mae wedi ffurfio nifer o is-grwpiau i fwrw ymlaen â darnau allweddol o waith a byddant yn cyfarfod yn amlach. Cyfarfu'r Grŵp Cyfeirio ym mis Ionawr 2019 am y tro cyntaf a dechreuodd yr is-grwpiau gyfarfod ar wahân yng ngwanwyn 2019.

Mae'r grŵp rhanddeiliaid ieuenctid yn cynnwys pobl ifanc rhwng 13 a 24 oed. Buom yn gweithio gyda Plant yng Nghymru i ddod o hyd i blant a phobl ifanc â diddordeb ac roeddem yn hynod falch pan wnaeth dros 60 o blant a phobl ifanc gynnig eu hunain. Roedd safon yr ymgeiswyr yn uchel iawn, ac er ein bod wedi bod yn chwilio am 15 o bobl ifanc i ddechrau, fe wnaethom gynyddu maint y grŵp i 25. Mae'r bobl ifanc hyn yn dod o gefndiroedd daearyddol a chymdeithasol amrywiol ac mae eu brwdfrydedd a'u gwybodaeth am y pwnc wedi creu cryn argraff arnom. Bydd y grŵp yn cyfarfod bob rhyw ddeufis, gan gyfarfod yn gyntaf ym mis Ionawr 2019 ac am yr eildro yn gynnar ym mis Ebrill 2019. Mae'r grŵp yn

cyfrannu arweiniad ac yn cyd-gynhyrchu polisi i’r Grŵp Gorchwyl a Gorffen a'r rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc (T4CYP). Mae rhaglen waith y grŵp wrthi'n cael ei datblygu a bydd yn cael ei chwblhau erbyn haf 2019.

Byddwn yn falch o hwyluso cyfarfod rhwng y Pwyllgor a'r grŵp rhanddeiliaid ieuenctid rywbryd yn y dyfodol pan fydd hynny’n gyfleus i bawb.

Er y cydnabuwyd eisoes bod adnoddau’n brin yn y cyfnod hwn o gyni parhaus, rydym wedi cytuno ar gyllid ar y cyd i sefydlu tîm bach i weithio ar draws y portffolios Addysg ac Iechyd a phortffolios eraill i fwrw ymlaen â’r gwaith hwn a darparu cymorth ysgrifenyddiaeth i'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen a Grwpiau eraill. Yn ogystal, o'r £7.1 miliwn o gyllid a gytunwyd ar gyfer 2019-2020 ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc, cytunwyd ar £2.5 miliwn i gefnogi gwaith y dull ysgol gyfan.

**Cyfathrebu**

Mae meithrin rhwydweithiau a chysylltiadau gyda phartneriaid yn y sector statudol a gwirfoddol yn elfen bwysig o sicrhau bod y dull ysgol gyfan wedi ymwreiddio ym mhob sector a sicrhau bod gwaith yn gyson ar draws y system gyfan mewn ffordd gydgysylltiedig. I gefnogi hyn cynhaliodd Llywodraeth Cymru a T4CYP weithdy ym mis Medi 2018 a fynychwyd gan 70 o randdeiliaid, i archwilio'r materion.

Byddwn yn ei wneud yn ddigwyddiad blynyddol i brofi ein rhagdybiaethau a sicrhau bod gweithgarwch yn parhau i fod ar y trywydd iawn er mwyn cyflawni.

Ffocws cynnar allweddol ar gyfer y gwaith hwn oedd meithrin a chynnal cysylltiadau â gweithgarwch cydategol sy'n digwydd mewn mannau eraill a datblygu cyfathrebu yn fwy cyffredinol. Yn hyn o beth bydd y Grŵp yn gweithio'n agos â’r canlynol:

- Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc, gyda ffocws penodol ar weithgarwch sy'n cefnogi ehangu gwasanaethau iechyd meddwl gofal sylfaenol a datblygu gweithio ar y cyd a llwybrau atgyfeirio gydag ysgolion.
- [Bwrdd Partneriaeth Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, Rhwydwaith Iechyd Meddwl Pob Oed]
- Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru, yn dilyn ei chynhadledd ym mis Ionawr 2019 a oedd yn canolbwyntio ar les. Mae trafodaethau ar y gweill erbyn hyn i fwrw ymlaen â’r canlyniadau a ddeilliodd o’r gynhadledd, gan sicrhau eu bod yn cyd-fynd â gweithredu agenda'r ysgol gyfan.

Gwnaed cyflwyniadau a chysylltiadau ers mis Rhagfyr hefyd yn:

- Grŵp Rhanddeiliaid Strategol Addysg, gyda diweddariadau ar weithgarwch ym mis Rhagfyr 2018 a mis Mawrth 2019
- Cynhadledd Cydffederasiwn GIG Cymru ym mis Chwefror 2019
- Cynhadledd Nyrsio Ysgol Cymru Gyfan ym mis Chwefror 2019

Roedd y digwyddiadau hyn yn fuddiol tu hwnt, gan roi cyfle i gychwyn deialog ac ymgysylltu ag ymarferwyr sy'n mynd i'r afael â materion iechyd meddwl a lles yn ddyddiol.

Byddwn yn parhau i gysylltu â'r sector mewn digwyddiadau o'r fath dros y ddwy flynedd nesaf i gryfhau'r cysylltiadau rydym wedi dechrau eu meithrin. Er mwyn sicrhau tryloywder a chynorthwyo ymgysylltu rydym yn datblygu cynllun cyfathrebu i hyrwyddo gwaith y Grŵp i gynulleidfa mor eang â phosibl, gan ganolbwyntio ar ysgolion a rhieni/gofalwyr.

## Gwella gwasanaethau i blant a phobl ifanc

Rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar wella Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed mewn ysgolion cynradd ac uwchradd, ac er bod cyrraedd y targed ar gyfer mynediad i'r gwasanaethau hyn yn parhau i fod yn her ar gyfer byrddau iechyd, rydym wedi gweld gwelliant sylweddol. Er ein bod yn cydnabod yr angen am ragor o welliant, mae nifer y plant a phobl ifanc sy'n aros dros 4 wythnos i dderbyn cymorth wedi gostwng bron i 45% ers mis Awst 2017.

Mae'n bwysig nodi cyd-destun a her gwella a sicrhau mynediad amserol i wasanaethau ar gyfer plant a phobl ifanc yng nghyd-destun y galw cynyddol am wasanaethau. Er enghraifft, ym mis Hydref roedd y gyfradd atgyfeirio i Wasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol ar gyfer pobl ifanc o dan 18 oed wedi dyblu o'i gymharu â'r mis blaenorol (500 i 1000), ac ers hynny mae wedi bod yn uwch na'r cyfartaledd arferol, sef 600 o atgyfeiriadau bob mis.

Er bod yr amrywiadau'n parhau, rydym wedi buddsoddi £1 miliwn arall eleni i roi cymorth ychwanegol i Fyrddau Iechyd Lleol y mae angen iddynt wella eu perfformiad wrth ddarparu Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed ar lefel gynradd ac arbenigol. Darparwyd y cyllid hwn ar yr amod bod byrddau iechyd yn cyflawni'r canlyniadau a nodwyd yn eu cynlluniau gwella, a'u bod yn targedu cymorth ychwanegol dros y blynyddoedd nesaf er mwyn cyrraedd targedau amseroedd aros mewn ffordd gynaliadwy.

Hefyd, rydym yn gofyn i fyrddau iechyd ddatblygu cynlluniau gweithredu manwl er mwyn gwella Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol a chefnogi cryfder a lles plant a phobl ifanc. Derbyniwyd y cynlluniau ym mis Hydref 2018 ac maent yn cynnwys camau gweithredu i wella perfformiad mewn ffordd gynaliadwy a chefnogi'r gwaith atal ac ymyrraeth gynnar er mwyn lleihau'r galw cyffredinol am wasanaethau.

Er mwyn llywio'r gwaith hwn, comisiynwyd Uned Gyflenwi'r GIG i gynnal adolygiad i'n helpu i ddeall sut mae Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol yn cael eu defnyddio a'u darparu i blant a phobl ifanc ledled Cymru. Bydd y gwaith hwn yn dod i ben ym mis Ebrill a bydd yr Uned Gyflenwi yn darparu adroddiadau unigol ar gyfer pob bwrdd iechyd er mwyn llywio cynlluniau gwella lleol. Hefyd, bydd yn darparu adolygiad thematig ar gyfer Llywodraeth Cymru.

Yn 2019-20, <u>byddwn yn buddsoddi £3.2 miliwn arall i helpu i wella Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed mewn ysgolion cynradd ac uwchradd</u>. Bydd cyllid ar gael i fyrddau iechyd ar ôl cytuno ar gynlluniau gwella cadarn sydd wedi'u llywio gan ganfyddiadau adolygiad yr Uned Gyflenwi, sy'n canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar ac atal ac sy'n dangos cysylltiadau â dull gweithredu ysgol gyfan. <u>Hefyd, byddwn yn darparu £1.4 miliwn ychwanegol ar gyfer Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol er mwyn cynyddu mynediad i wasanaethau cymunedol, haen is ar gyfer plant a phobl ifanc.</u>

### Ein blaenoriaethau ar gyfer 2019-20

Fel y nododd Cadernid Meddwl, un o'r ffactorau allweddol wrth wella canlyniadau iechyd meddwl a lles ar gyfer plant a phobl ifanc yw cymorth a darpariaeth ar gyfer pobl ifanc cyn bod eu problemau'n gwaethygu a bod angen Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed arbenigol arnynt. Gall hyn fod ar ffurf gwasanaethau cyffredinol fel y rhai a hyrwyddir trwy Gynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru, ac ymyriadau lefel isel wedi'u targedu fel gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion, darpariaethau meithrin neu

gynorthwywyr cymorth llythrennedd emosiynol. Mae'n hollbwysig bod gan ysgolion ac awdurdodau lleol wybodaeth dda am effeithiolrwydd ymyriadau iechyd meddwl a lles fel bod modd iddynt ddewis rhaglenni sy'n addas i'w cyd-destun lleol. Rydym wedi datblygu rhaglen waith dros y ddwy flynedd nesaf i gryfhau darpariaeth gyffredinol ac ymestyn argaeledd ymyriadau lefel isel a dargedir.

Un o'r materion allweddol a nododd Cadernid Meddwl yw pwysigrwydd gwella darpariaeth gwasanaethau ar gyfer y 'Canol Coll': plant a phobl ifanc sydd ag anghenion mwy na'r ddarpariaeth gyffredinol a lefel isel ar hyn o bryd, ond nad ydynt yn gymwys ar gyfer ymyrraeth Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed arbenigol. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda T4CYP i fynd i'r afael â'r mater hwn, a'r nod yw cryfhau darpariaeth o'r ddau 'ben': gwella mynediad i asesiad ac ymyriadau arbenigol ar gyfer y rhai sydd eu hangen, a chynyddu gallu ysgolion a darparwyr anfeddygol i helpu plant a phobl ifanc sy'n wynebu materion lles ac iechyd meddwl. Rydym wedi nodi bod cydweithio yn faes i ganolbwyntio arno dros y flwyddyn nesaf.

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau nad oes unrhyw ddrws ar gau i blant a phobl ifanc sy'n chwilio am gymorth. Rydym yn gweithio mewn ffordd amlasiantaethol i wella hyder holl aelodau staff ysgolion er mwyn ymateb i blant a phobl ifanc wrth siarad am faterion iechyd meddwl a lles sy'n eu hwynebu o bosibl, a'u hatgyfeirio i wasanaethau yn effeithiol. Mae cynlluniau peilot mewngymorth Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed eisoes wedi dechrau gweithio yn y maes hwn, a byddant yn darparu gwerthusiad ffurfiol dros dro ym mis Rhagfyr 2019. Cyn hyn, byddwn yn gweithio gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r byrddau iechyd lleol i ledaenu dysgu cynnar ac arferion da sy'n deillio o'r cynlluniau peilot yn ystod haf a hydref 2019.

Mae'r gwaith i wella iechyd meddwl a lles emosiynol yn seiliedig ar y cwricwlwm newydd. Un o bedwar diben y cwricwlwm newydd i Gymru yw helpu plant a phobl ifanc i fod yn unigolion iach, hyderus sy'n datblygu eu lles meddwl ac emosiynol trwy ddatblygu hyder, cryfder ac empathi. Bydd y pedwar diben yn ganolog i'r cwricwlwm newydd ac maent yn fan cychwyn ar gyfer pob penderfyniad yn ymwneud â datblygu'r cwricwlwm newydd a'r trefniadau asesu.

Bydd Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles yn seiliedig ar bynciau a themâu lles meddwl, corfforol ac emosiynol. Hefyd, bydd yn ystyried sut mae'r amgylchedd ysgol yn cefnogi iechyd a lles cymdeithasol, emosiynol, ysbrydol a chorfforol plant a phobl ifanc. Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Maes, mae arloeswyr wedi ystyried tystiolaeth ac arbenigedd yn ymwneud â sut mae ymarfer myfyriol yn gallu cefnogi lles meddwl ac emosiynol. Mae'r broses o integreiddio iechyd meddwl a lles yn y cwricwlwm wedi'i nodi'n flaenoriaeth allweddol ar gyfer gwaith y Grŵp Gorchwyl a Gorffen, ac mae swyddogion a rhanddeiliaid ehangach wedi bod yn cydweithio i sicrhau hyn. Cyhoeddir canllawiau ar y cwricwlwm newydd at ddibenion ymgynghori ym mis Ebrill 2019.

Er nad oes modd tanbrisio pwysigrwydd y cwricwlwm newydd i'r agenda hon, mae ffactorau eraill ar waith hefyd. Mae'n rhaid sicrhau bod datblygu dull gweithredu ysgol gyfan yn broses gyflawn sy'n cynnwys holl amgylchedd yr ysgol, gan ddechrau trwy sicrhau bod pob ysgol yn deall ei sefyllfa ei hun.

Mae ysgolion yn rhannu llawer o nodweddion tebyg, ond mae pob ysgol yn wynebu ei heriau ei hun, ac mae'n rhaid i bob ysgol ddeall yr heriau a'r materion hynny er mwyn mynd i'r afael â nhw. Tîm arweinyddiaeth yr ysgol sy'n gyfrifol am hyn yn bennaf, ond mae'n rhaid i bawb gyfrannu at y gwaith, gan sicrhau bod 'tîm' yr ysgol gyfan yn ymwneud â'r broses er

mwyn sicrhau ei fod yn mynd ati mewn ffordd ddidwyll a chywir i fyfyrio ar y materion hynny a'r camau lliniaru sydd eu hangen i fynd i'r afael â nhw.

Byddwn yn gweithio gydag ysgolion i'w helpu gyda'r broses o hunanwerthuso eu trefniadau ar gyfer lles emosiynol ac iechyd meddwl. Byddwn yn gwneud hyn trwy ddarparu adnoddau gwerthuso a dadansoddi data, ynghyd â chanllawiau ar sut i ddatblygu a chyflwyno cynllun gweithredu i fynd i'r afael â materion a nodwyd yn y gwerthusiad. Byd pob cynllun gweithredu yn gyson ag ethos y dull gweithredu ysgol gyfan, gan fynd i'r afael ag ystod eang o faterion lles a sicrhau bod plant a phobl ifanc yn helpu i'w lunio.

Byddwn yn darparu fframwaith a chanllawiau i ysgolion ar sut i ddatblygu eu cynllun, gan gynnwys:

- sut i fynd i'r afael â stigma a gwahaniaethu
- 'pecyn cymorth' o adnoddau seiliedig ar dystiolaeth sy'n cynnwys adnoddau ataliol, cyffredinol ac wedi'u targedu ar gyfer plant, pobl ifanc ac athrawon
- llwybrau gofal y cytunir arnynt ar gyfer gweithwyr proffesiynol a gwaith amlasiantaethol
- ffynonellau ymarferol eraill o gyngor a chymorth ar gyfer ysgolion, gan gynnwys darpariaeth trydydd sector.

Byddwn yn helpu i ddatblygu mesurau effaith effeithiol a chyson sy'n gallu helpu ysgolion i asesu effeithiolrwydd eu cynlluniau, a datblygu cynlluniau newydd.

Bydd y fframwaith i ysgolion yn cynnwys llawer o'r camau gweithredu a'r ymrwymiadau sydd wedi'u cynnwys yn y diweddariad perthnasol ar argymhellion isod.

Byddwn yn datblygu'r gwaith sydd eisoes wedi'i wneud i gynnwys iechyd meddwl a lles emosiynol mewn Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon, gan gomisiynu pecynnau hyfforddi pwrpasol ar gyfer athrawon a staff eraill mewn ysgolion yn ymwneud ag iechyd meddwl a lles. Bydd y pecynnau hyn ar gael i athrawon a staff eraill mewn ysgolion fel rhan o'u datblygiad proffesiynol parhaus. Rydym yn cydnabod bod yn rhaid i athrawon a staff ysgolion yn ehangach sefydlu agwedd ysgol gyfan at iechyd meddwl a lles emosiynol, a bod angen cymorth arnynt i allu cefnogi plant a phobl ifanc.

**Ymateb diwygiedig Llywodraeth Cymru i adroddiad Cadernid Meddwl (Mawrth 2019) y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg**

**Argymhelliad Allweddol**

**Bod Llywodraeth Cymru yn gwneud lles a gwydnwch emosiynol a lles a gwydnwch meddwl ein plant a'n pobl ifanc yn flaenoriaeth genedlaethol benodedig. Dylai'r statws hwn gynnwys ymrwymiad i:**

1. **ddarparu adnoddau digonol sydd wedi'u neilltuo i'n hysgolion ddod yn ganolfannau cymunedol o gefnogaeth draws-sector a thraws-broffesiynol ar gyfer gwydnwch emosiynol a lles meddwl. Ni all ysgolion ysgwyddo'r cyfrifoldeb hwn eu hunain - mae cefnogaeth asiantaethau statudol eraill a'r trydydd sector, yn enwedig iechyd, yn hanfodol;**
2. **sicrhau bod iechyd emosiynol ac iechyd meddwl wedi'i ymgorffori'n llawn yn y cwricwlwm newydd;**
3. **sicrhau bod pawb sy'n gofalu am blant a phobl ifanc, sy'n gwirfoddoli, neu sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc yn cael hyfforddiant ym maes ymwybyddiaeth o iechyd emosiynol ac iechyd meddwl, i fynd i'r afael â materion yn ymwneud â stigma, hybu iechyd meddwl da a gallu dangos y ffordd at wasanaethau cymorth lle bo angen. Dylai hyn gynnwys gweithio gyda chyrff**

**proffesiynol i ymgorffori hyfforddiant mewn cymwysterau cychwynnol a datblygiad proffesiynol parhaus; a**
**chyhoeddi adolygiad annibynnol bob dwy flynedd o'r cynnydd yn y maes hwn. Dylai'r broses hon gynnwys plant a phobl ifanc drwyddi draw.**

Mae ein gweithredoedd yn y blynyddoedd diwethaf yn dangos ein hymrwymiad i wella lles emosiynol ac iechyd meddwl. Dangosir hyn yn y ffordd y mae ein bwriad strategol yn cael ei droi'n weithredu ymarferol ym mhopeth a wnawn. Mae Iechyd Meddwl yn parhau i fod yn un o chwe thema allweddol Ffyniant i Bawb ac mae ei fwriad yn cael ei ailadrodd a'i wreiddio yn:

- Ein Cenhadaeth Genedlaethol, sy'n ceisio hyrwyddo ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i ragoriaeth, tegwch a llesiant, fel un o'i phedwar amcan galluogi.
- Cymru Iachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol, sy'n ailddatgan ein blaenoriaethau ar gyfer lles y genedl.
- Law yn Llaw at Iechyd Meddwl, sy'n diffinio ymhellach y camau y byddwn yn eu cymryd i adeiladu gwytnwch emosiynol, mynd i'r afael â stigma a gwahaniaethu a chefnogi pobl sy'n dioddef o iechyd meddwl gwael.

Mae'r bwriad strategol hwn yn cael ei droi'n weithredu ymarferol ac rydym yn ymgysylltu'n weithredol â'n rhanddeiliaid i greu polisi ac ymarfer effeithiol. Yn fwyaf nodedig mewn perthynas â'n cyhoeddiad ym mis Medi 2018 y byddem yn cyd-sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol i'n cynghori ar yr hyn sydd angen ei wneud i gefnogi iechyd meddwl plant a phobl ifanc.

Rydym hefyd wedi ymrwymo buddsoddiad sylweddol ac ystyrlon i gefnogi'r dulliau hyn hefyd a chyfeirir at gyllid ychwanegol yn yr ymateb hwn drwyddo draw. Er hwylustod, mae Atodiad A yn cynnwys crynodeb o'r holl fuddsoddiad a amlinellir yn yr ymateb hwn.

**(1) Cefnogi ysgolion**
Ers cyhoeddi ein hymateb gwreiddiol rydym wedi parhau i adeiladu ar y gwaith da hwn. Mae ein Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol yn gweithio i ddwyn ynghyd yr holl elfennau o weithgarwch sy'n digwydd, boed y gweithgaredd hwnnw wedi'i gychwyn yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, neu wedi'i gychwyn mewn mannau eraill yn y sector cyhoeddus ehangach a'r trydydd sector. Rydym yn mapio'r cyd-ddibyniaethau, gan amlygu lle mae yna fylchau yn y ddarpariaeth a rhoi cynlluniau ar waith i lenwi'r bylchau hynny. Y nod yn y pen draw yw datblygu fframwaith dull ysgol gyfan. Ni fwriedir iddo fod yn un dull sy'n addas i bawb, ond yn hytrach yn set o egwyddorion cyffredin y gall pawb gytuno arnynt i hyrwyddo cysondeb a mynediad cyfartal. Mae angen iddo gael ei ategu gan:

- ysgolion yn deall eu heriau, eu hanghenion a'u blaenoriaethau eu hunain.
- cael mynediad at gasgliad o wasanaethau seiliedig ar dystiolaeth sy'n mynd i'r afael â chodi ymwybyddiaeth; mynd i'r afael â stigma a gwahaniaethu; nodi ac ymyrryd yn gynnar; darparu ymyriadau cyffredinol ac wedi'u targedu.
- gwasanaethau sy'n gweithio gyda'i gilydd i ateb angen a nodwyd.
- dilysu a gwerthuso rheolaidd fel bod yr ysgol yn gwybod beth sy'n gweithio, beth sydd ddim yn gweithio a bod anghenion ei myfyrwyr a'i staff yn cael eu diwallu.

Er mwyn gwireddu'r ymrwymiad hwn rydym wedi sicrhau bod hyd at £300,000 ar gael ar y cyd o'r cyllidebau Iechyd ac Addysg i ariannu'r gwaith hwn. Yn ogystal, ym mis Ionawr

2019 darparwyd £7.1 miliwn ychwanegol o'r gyllideb Iechyd i gefnogi iechyd meddwl plant, gan gynnwys ein gwaith dull ysgol gyfan, wedi'i rannu fel a ganlyn:

tua £2.5 miliwn i gefnogi'r Dull Ysgol Gyfan;
tua £3.2m o gymorth ychwanegol ar gyfer CAMHS ac ymyrraeth gynnar; a,
tua £1.4m o gymorth ychwanegol ar gyfer ymyrraeth gynnar ac ymyrraeth ataliol lefel isel yn y gymuned a gyfeirir drwy’r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

**(1/3) Cefnogi ysgolion a chymunedau**
Gan gydnabod mai dim ond cyfran o'u bywydau effro mae plant yn ei dreulio yn yr ysgol, mae gan wasanaethau ieuenctid a gwaith ieuenctid yn y gymuned y potensial i wneud cyfraniad sylweddol at gefnogi pobl ifanc, rydym wedi buddsoddi lefelau heb eu tebyg o gyllid yn y gwasanaethau hanfodol hyn yn 2019/20.

Mae'r £10 miliwn hwn o gyllid, drwy'r Grant Cymorth Ieuenctid, yn cynnwys £2.5 miliwn i fynd i'r afael â materion iechyd meddwl/emosiynol a lles meddyliol drwy ddulliau gwaith ieuenctid, £3.7 miliwn i fynd i'r afael â digartrefedd ymhlith pobl ifanc, a chynnydd o 10% i'r gyllideb graidd sy'n gysylltiedig â’r grant, sy'n canolbwyntio ar waith ieuenctid a gweithgareddau ymgysylltu a datblygu ieuenctid.

Wrth gyflwyno eu cynlluniau, gofynnwyd i awdurdodau lleol weithio ar y cyd ag amrywiaeth o bartneriaid i ddatblygu darpariaeth sy'n diwallu anghenion pobl ifanc yn eu hardal leol. Mae'r meini prawf sy'n gysylltiedig â'r grant, tra'n caniatáu hyblygrwydd i ystyried anghenion lleol, yn gosod disgwyliad i ddatblygu systemau adnabod yn gynnar, mecanweithiau atgyfeirio, trefniadau cyfeirio, a llwybrau cymorth, hyfforddiant i ymarferwyr a gweithio mewn partneriaeth ar draws gwasanaethau i sicrhau cynnig cydlynol o gymorth i bobl ifanc.

Mae ein gwaith ar Ysgolion Bro yn cynnwys darparu £15 miliwn ar gyfer gwaith a fydd yn ymestyn gwasanaethau ysgol i deuluoedd a'r gymuned ehangach. Derbyniwyd nifer sylweddol o geisiadau ac maent yn cael eu hasesu gyda’r nod y bydd gwaith yn dechrau yn gynnar yn y flwyddyn ariannol nesaf. Roedd y cynigion yn cynnwys casgliad o ymyriadau a fydd yn hwyluso defnydd cymunedol ehangach o ysgolion / colegau a chanolfannau cymunedol; gan gynnwys gwell cyfleusterau cymunedol a chydleoli gwasanaethau.

**(2) Cwricwlwm newydd**
Bydd y cwricwlwm newydd yn cefnogi dysgwyr i ddatblygu eu gallu i ganolbwyntio eu sylw, a bod yn ymwybodol o sut maen nhw’n gweld pethau, yn meddwl ac yn teimlo yn ystod eu profiadau. Mae hyn yn rhoi cyfle i ddysgwyr feithrin sgiliau hunanymwybyddiaeth ac empathi. Mae hunanymwybyddiaeth yn galluogi dysgwyr i fod yn dderbyngar ac yn fyfyriol, sy'n eu helpu i addasu eu hymddygiad a'u gweithredoedd i wahanol sefyllfaoedd. O ganlyniad, mae dysgwyr yn dechrau deall bod iechyd meddwl a lles emosiynol eraill yn cael eu heffeithio gan eu profiadau bywyd eu hunain a phrofiadau bywyd pobl eraill, sy'n galluogi dysgwyr i ymddwyn ag empathi, tosturi a charedigrwydd tuag at eu hunain ac eraill.

**(3) Hyfforddiant staff**
Bydd ein gwaith Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn ystyried dull haenog o hyfforddi gyda ffocws cychwynnol ar holl staff yr ysgol. Bydd hyn yn ceisio sicrhau bod pob aelod o staff yn cael mynediad at hyfforddiant yn seiliedig ar lefel eu hanghenion a'u bod naill ai'n ymwybodol, yn wybodus neu'n arbenigol fel sy'n briodol.

Mewn perthynas â datblygiad proffesiynol parhaus, lansiwyd y Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol i athrawon fel y trefnwyd yn hydref 2018 mewn cyfres o gynadleddau rhanbarthol. Er mwyn cefnogi'r gwaith o'i gyflwyno, mae £24 miliwn wedi'i ymrwymo i gefnogi dysgu proffesiynol dros 18 mis (£9 miliwn yn 2018/19 a £15 miliwn yn 2019/20)

Mae cylchoedd Ymholiad Proffesiynol Cydweithredol Beirniadol yn mynd rhagddynt gydag Arloeswyr Dysgu Proffesiynol a'u hysgolion clwstwr, gan gynnwys ym Maes Profiad Dysgu ar gyfer Iechyd a Lles, ac mae adnoddau Dysgu Proffesiynol Digidol yn dechrau cael eu comisiynu drwy’r rhanbarthau.

Cafodd meini prawf ar gyfer achredu rhaglenni addysg gychwynnol athrawon eu datblygu a'u cyhoeddi ym mis Mawrth 2017. Yn dilyn achrediad annibynnol, bydd pedair partneriaeth AGA yn cyflwyno rhaglenni AGA yng Nghymru o fis Medi 2019 ymlaen. Fel rhan o’r gwaith o fodloni gofynion achredu byddant yn sicrhau bod athrawon newydd yn gallu addysgu pedwar diben y cwricwlwm a'r meysydd dysgu a phrofiad.

Disgwylir y bydd partneriaethau’n datblygu dulliau effeithiol i athrawon dan hyfforddiant ymdrin â’u lles eu hunain, eu cydweithwyr a'u dysgwyr; darparu cyfleoedd i ddeall rôl lles mewn dysgu effeithiol, gan gynnwys y gallu i adnabod disgyblion sydd mewn perygl o brofi lles gwael a darparu cyfleoedd i fyfyrwyr archwilio'r modelau mwyaf effeithiol a ddefnyddir gan ysgolion a'u partneriaid i wella lles pob dysgwr.

Bydd y Partneriaethau AGA yn datblygu dulliau i gynorthwyo darpar athrawon i ddeall pwysigrwydd ymarfer seiliedig ar ymchwil hefyd, fel bod athrawon yn cael eu dysgu pa mor bwysig yw gwybod am y gwaith ymchwil diweddaraf, megis ymchwil ar iechyd meddwl a lles dysgwyr, i lywio eu hymarfer addysgu’n barhaus drwy gydol eu bywydau gwaith.

I addysgu mewn ysgolion a gynhelir, bydd Darparwyr AGA yn asesu athrawon dan hyfforddiant y mae'n rhaid iddynt fodloni gofynion Statws Athro Cymwys fel y'i disgrifir o dan y safonau addysgu proffesiynol newydd.

Bydd Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc (T4CYP) yn darparu mwy o wybodaeth am y gwaith y maent wedi'i wneud yn y maes hwn fel rhan o'u hymateb uniongyrchol i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.

**(4) Gwerthuso ac adolygu**

Mewn perthynas â gwaith ein Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol, rydym wedi ymrwymo y dylai'r gwaith hwn fod mor dryloyw â phosibl. I'r perwyl hwn byddwn yn datblygu tudalen we i hyrwyddo gweithgarwch a hyrwyddo ymgysylltu. Byddwn yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar gynnydd, gyda'r adroddiad cyntaf o'r fath ar ddiwedd 2019/dechrau 2020. Byddwn yn cynnwys ein Grŵp Rhanddeiliaid Ieuenctid o 24 o bobl ifanc wrth ddatblygu'r adroddiad hwn.

**1. Bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi, cyn pen tri mis ar ôl cyhoeddi’r adroddiad hwn, fap llwybr o sut y bydd iechyd (o dan arweiniad y Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc) ac addysg (o dan arweiniad Iechyd a’r maes Profiad Dysgu Iechyd a Lles) yn gweithio gyda’i gilydd i lywio’r cwricwlwm newydd. Dylai’r map llwybr hwn gynnwys cerrig milltir clir a nodi’r asiantaethau neu’r unigolion sy’n gyfrifol am eu cyflwyno.**

Mae ein nodau uchelgeisiol ar gyfer y cwricwlwm cenedlaethol newydd ac, yn benodol, Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles (AoLE) yn ganolog i waith ein Cyd-grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol.

Mae cynnal cysylltiadau a sicrhau cydweithio, lle bo'n briodol, gyda gweithgarwch cysylltiedig, fel y Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc, yn flaenoriaeth hefyd. Mae hyn yn galluogi Cadeirydd Bwrdd Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc i fod yn aelod sefydlog o'r Grŵp Gweinidogol. Wrth ddatblygu'r AoLE Iechyd a Lles rydym wedi gweithio'n agos gyda'r Athro Robin Banerjee, sy'n aelod o Grŵp Cyfeirio Arbenigol T4CYP.

Mae'r cwricwlwm yn cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad ym mis Ebrill 2019. Mae'r AoLE drafft yn cynnwys elfen “Beth sy'n bwysig” sy'n canolbwyntio ar les meddyliol ac emosiynol a bwriedir iddi gael ei defnyddio ynghyd â phedwar “Beth sy'n Bwysig” arall i hyrwyddo dull cyfannol o ymdrin ag iechyd a lles. Yn ystod y gwanwyn a'r haf, bydd arloeswyr yn y gweithgor AoLE yn nodi goblygiadau ar gyfer agwedd ysgol gyfan.

Mae staff ein rhaglen mewngymorth CAMHS i ysgolion yn cefnogi'r AoLE arfaethedig eisoes trwy gyflwyno hyfforddiant gyda staff ysgol ac eraill i ddefnyddio a gweithredu adnoddau a darpariaeth lles meddyliol. Dylai hyn fod yn gysylltiedig â'r datganiadau “Beth sy'n bwysig” a Gwobr Ansawdd Cenedlaethol Rhwydwaith Cynlluniau Ysgolion Iach Cymru.

**2. Bod Llywodraeth Cymru yn blaenoriaethu’r gwaith o wella mesur lles mewn ysgolion o fewn y fframwaith arolygu er mwyn llywio gweithgareddau a pherfformiad. Dylai’r gwaith o ddatblygu’r mesurau hyn gynnwys pob rhanddeiliad perthnasol i sicrhau eu bod yn addas at y diben ac nad ydynt yn arwain at ganlyniadau anfwriadol. Yn bwysicaf oll, dylai plant a phobl ifanc fod yn rhan o’r broses o baratoi’r mesurau hyn i sicrhau eu bod yn gofnod cywir o’r ffactorau sy’n dylanwadu ar eu lles. Dylai’r mesurau hyn fod ar gael o fewn chwe mis i gyhoeddi’r adroddiad hwn, neu fod yn rhan o adroddiad yr adolygiad annibynnol o oblygiadau’r rhaglen ddiwygio addysgol yng Nghymru ar gyfer rôl Estyn yn y dyfodol, pa un bynnag yw’r cynharaf.**

Mae fframwaith arolygu Estyn, sy'n canolbwyntio ar iechyd a lles disgyblion a staff yn rhan bwysig o waith y Grŵp Gweinidogol.

Roedd cylch gwaith 2018-19 Estyn yn cynnwys ymrwymiad i adolygu maes dysgu a phrofiad iechyd a lles mewn ysgolion cynradd ac uwchradd mewn dull cyfannol. Disgwylir i'r adroddiad terfynol gael ei gyhoeddi yn ystod haf 2019 a bydd yn ystyried effaith yr ysgol ar iechyd a lles plant gan gynnwys:

- arweinyddiaeth foesol y pennaeth, uwch arweinwyr eraill a'r corff llywodraethu
- hinsawdd sy'n hyrwyddo CCUHP a llais y plentyn
- cysylltiadau staff-staff, staff-dysgwyr a dysgwyr-dysgwyr
- darparu cwricwlwm sy'n diwallu anghenion dysgwyr (ar gyfer y presennol a'u dyfodol), a weithredir gyda phrofiadau dysgu sy'n cefnogi ac yn herio disgyblion am eu hiechyd a'u lles
- gofal, cefnogaeth ac arweiniad cryf ac ymatebol
- amgylchedd sy'n hyrwyddo iechyd a lles
- partneriaethau effeithiol gydag asiantaethau allanol
- cyfathrebu effeithiol a gweithio mewn partneriaeth gyda rhieni
- dysgu proffesiynol cefnogol i'r holl staff

Bydd ein Grŵp Gweinidogol yn ystyried y canlyniadau a'r argymhellion sy'n deillio o'r adroddiad ar ôl ei gyhoeddi.

Bydd cefnogi ysgolion, y fframwaith hunanarfarnu yn galluogi ysgolion i adolygu a meincnodi eu dealltwriaeth fewnol eu hunain o les disgyblion a staff, diffinio lles mewn addysg a disgrifio ymarfer effeithiol hefyd. Disgwylir y bydd drafft o'r pecyn cymorth ar gael ym mis Medi 2019.

Ar hyn o bryd mae'r Gweinidog Addysg yn ystyried eitemau arfaethedig ar gyfer cylch gwaith Estyn ar gyfer 2019-20 sy'n cynnwys adolygiad thematig i ymgymryd â gwaith pellach ar weithgareddau lles emosiynol ac iechyd meddwl mewn ysgolion. Byddwn hefyd yn gofyn i'n Grŵp Cyfeirio Ieuenctid ystyried gwaith Estyn ar ddatblygu dull o fesur lles disgyblion.

**4. Bod Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad o'r holl fentrau lles emosiynol a meddyliol sydd ar waith yn ysgolion Cymru, gyda'r bwriad o argymell dull cenedlaethol i ysgolion ei fabwysiadu, yn seiliedig ar arfer gorau. Dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag ysgolion enghreifftiol fel Ysgol Pen y Bryn ym Mae Colwyn i ddatblygu elfennau o'r dull cenedlaethol hwn, gan gynnwys ymwybyddiaeth ofalgar, ond heb fod yn gyfyngedig i hyn.**

Yn gysylltiedig ag ymateb wedi'i ddiweddaru i argymhelliad allweddol (1) uchod. Rydym wedi dechrau mapio fel rhan o ddatblygiad fframwaith ysgol. Rydym yn casglu gwybodaeth am ymyriadau seiliedig ar dystiolaeth y gall ysgolion ddewis eu mabwysiadu, gan ystyried eu hanghenion unigol. Fel y nodir uchod, nid yw hyn wedi'i fwriadu fel un dull sy'n addas i bawb, yn hytrach mae'n gasgliad o egwyddorion cyffredin y gall pawb gytuno arnynt i hyrwyddo cysondeb a mynediad cyfartal, wedi'i ategu gan:

- ysgolion yn deall eu heriau, eu hanghenion a'u blaenoriaethau ei hunain.
- mynediad at gasgliad o wasanaethau seiliedig ar dystiolaeth sy'n mynd i'r afael â chodi ymwybyddiaeth; mynd i'r afael â stigma a gwahaniaethu; adnabod ac ymyrryd yn gynnar; darparu ymyriadau cyffredinol a rhai wedi'u targedu.
- gwasanaethau'n gweithio gyda'i gilydd i ateb angen a nodwyd.
- dilysu a gwerthuso rheolaidd fel bod yr ysgol yn gwybod beth sy'n gweithio, beth nad yw'n gweithio a bod anghenion ei myfyrwyr a'i staff yn cael eu diwallu.

**4. Bod Llywodraeth Cymru, wrth ymgymryd â'r adolygiad yr ydym yn galw amdano yn argymhelliad 3, yn gweithio yn y cyfamser gyda'r Samariaid i ddatblygu eu Rhaglen Datblygu Ymwybyddiaeth Emosiynol a Gwrando (DYEG) i'w defnyddio'n ehangach mewn ysgolion yng Nghymru. Yn amodol ar ganlyniadau'r gwerthusiad o'r Rhaglen, sydd ar y gweill, dylai Llywodraeth Cymru roi arian i ymestyn y rhaglen i'r sector ysgolion cynradd.**

Gweler argymhelliad (3) uchod ac (16) isod. Rydym yn casglu gwybodaeth ar ymyriadau a rhaglenni amrywiol seiliedig ar dystiolaeth, er nad ydym yn gallu hyrwyddo unrhyw un dros un arall a mater i ysgolion yw penderfynu a ddylid mabwysiadu menter benodol gan ystyried eu hanghenion a'u hamgylchiadau eu hunain.

**5. Bod Llywodraeth Cymru yn comisiynu gwaith mapio i ganfod argaeledd staff nad ydynt yn addysgu mewn ysgolion i gefnogi iechyd a lles emosiynol ac iechyd meddwl, a'r lefel ddisgwyliedig o angen yn y dyfodol. Dylai'r gwaith hwn amlinellu sut i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion**

Bydd yr arolygon staff llinell sylfaen, canol a diwedd yn y gwerthusiad o gynlluniau peilot mewngymorth CAMHS i ysgolion yn rhoi sail dystiolaeth o les ac agwedd staff tuag at eu hiechyd/lles meddyliol eu hunain ac ehangach.

Mae cynllun peilot mewngymorth CAMHS i ysgolion y De-ddwyrain wedi dechrau datblygu hyfforddiant lles staff eisoes trwy gyflwyno gweithdai diwrnod llawn ar gyfer hyd at 50 aelod staff, gan gynnwys 'Uwch Dimau Arweinyddiaeth a/neu dimau lles.

Bydd gwaith y cynlluniau peilot yn galluogi man cychwyn ar gyfer mapio argaeledd hyfforddiant, asesu anghenion a datblygu sgiliau ar draws staff ysgol ac eraill o fewn yr amgylchedd dysgu.

Yn dilyn cyflwyno a gwerthuso'r gweithgaredd hwn byddwn yn ystyried y potensial i gyflwyno hyn yn ehangach ledled Cymru o gofio'r goblygiadau tebygol o ran adnoddau.

Bydd argaeledd staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu mewn ysgolion yn cael ei hystyried hefyd fel rhan o'n cynlluniau ar gyfer datblygiad proffesiynol yn y gweithlu (gweler ein hymateb uchod i ran 3 o'r prif argymhelliad).

Gwnaeth y Prif Weinidog ymrwymiad maniffesto i'w gwneud yn ofynnol bod gwasanaethau cymorth addysgol arbenigol, gan gynnwys Gwasanaethau Seicoleg Addysg, yn gweithio'n fwy strategol ledled Cymru i wella mynediad at wasanaethau o'r fath. Byddwn yn gweithio gyda'r rhanddeiliaid perthnasol i ystyried sut y gellid cymhwyso hyn yn ymarferol yn y blynyddoedd i ddod.

**6. Bod Llywodraeth Cymru yn asesu ansawdd y cwnsela statudol sydd ar gael mewn ysgolion, yn enwedig sut mae'r gwasanaeth yn ymdopi â'r galw cynyddol, yn mynd i'r afael â stigma ac yn diwallu anghenion plant a phobl ifanc. Dylai hyn gynnwys ystyried darparu cymorth cwnsela ar-lein a'r tu allan i wersi / ysgol, ac i'r rheini sy'n iau nag 11 oed.**

Rydym wrthi'n gweithio gydag arweinwyr cwnsela awdurdodau lleol, Cymdeithas Cwnsela a Seicotherapi Prydain a rhanddeiliaid allweddol eraill i gynhyrchu pecyn cwnsela diwygiedig ar gyfer awdurdodau lleol. Ein bwriad yw ymgynghori'n ffurfiol ar y pecyn cymorth diwygiedig yn ystod yr haf. Bydd y pecyn cymorth yn darparu cymorth ymarferol i gwnselwyr a rheolwyr gwasanaethau cwnsela ac i'r rhai sydd â chyfrifoldeb o ddydd i ddydd am faterion iechyd meddwl mewn ysgolion (megis penaethiaid a chyrff llywodraethu pob ysgol gynradd ac uwchradd yng Nghymru) yn ogystal ag mewn lleoliadau cymunedol. Bydd yn darparu'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel, gan ddarparu gwerth am arian a gwell canlyniadau i blant a phobl ifanc, ac i roi'r wybodaeth sydd ei hangen ar randdeiliaid eraill i gydweithio gyda gwasanaethau cwnsela.

Fel rhan o'r gwaith hwn byddwn yn edrych hefyd ar y tueddiadau yn y galw a gallu'r gwasanaeth i ateb y galw presennol a'r galw yn y dyfodol. Blaenoriaeth allweddol fydd archwilio sut mae cwnsela'n gweithio gyda darparwyr eraill ac yn arbennig y berthynas a'r gefnogaeth gyda Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol (LPMHSS). Mae Awdurdodau Lleol ym mhob ardal bwrdd iechyd yn bartneriaid yn ffurfiol mewn cynlluniau ar y cyd o dan Ran 1 o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) ar gyfer darparu LPMHSS. Yn ddelfrydol, mae'r bartneriaeth hon yn rhoi cyfle i ALlau adolygu'r galw/darpariaeth cwnsela gydag arweinwyr LPMHSS i lywio dadansoddiad gallu a galw ac addasrwydd darpariaethau amrywiol. Byddwn yn cynnwys arweinwyr LPMHSS yn y gwaith hwn gan

fod ganddynt wybodaeth fanwl am y math a'r galw am ymyriadau cwnsela i blant a phobl ifanc a atgyfeiriwyd at eu gwasanaeth.

Blaenoriaeth allweddol i ni yn ystod 2019 yw datblygu darpariaeth cwnsela ar-lein i blant ledled Cymru, ac fel y nodwyd yn ein hymateb gwreiddiol byddwn yn gweithio gyda'r awdurdodau lleol hynny sy'n cynnig darpariaeth ar-lein ar hyn o bryd i sefydlu arfer gorau.

Ein bwriad yw y bydd darpariaeth ar-lein ar gael fel un agwedd ar ymyriad sy’n cynnwys darpariaeth wyneb yn wyneb hefyd. Y materion allweddol yr ydym am eu harchwilio yw'r agweddau ymarferol o ran:

- Effaith ar allu gwasanaethau presennol i ddarparu a chyflwyno adnodd ar-lein ochr yn ochr â darpariaeth fwy traddodiadol (h.y. y goblygiadau goruchwylio a monitro)
- Beth ddylai'r meini prawf cyfeirio fod
- Sut i werthuso'r gwasanaeth orau

Rydym yn bwriadu ategu’r ddarpariaeth cwnsela mewn ysgolion gyda darpariaeth Therapi Gwybyddol ar-lein (CBT). Gwnaethom gomisiynu Technoleg Iechyd Cymru i ddarparu cyngor ar CBT ar-lein a gyflwynodd adroddiad ym mis Rhagfyr 2018. Rydym wedi comisiynu adolygiad llenyddiaeth hefyd i ystyried effeithiolrwydd ymyriadau ar-lein ar gyfer plant a phobl ifanc. Adroddodd yr ymchwil ym mis Ionawr 2019 ac mae'n dangos bod potensial i lwyddo, ond mae angen gwerthuso ymyriadau presennol yn fwy helaeth ar gyfer y grŵp oedran hwn.

Mae'r ddau adroddiad yn awgrymu y dylid defnyddio ymyriadau ar-lein i drin iechyd meddwl law yn llaw ag ymyriadau wyneb yn wyneb. Felly, rydym yn ystyried canfyddiadau'r gwaith hwn i lywio ein camau nesaf. Bydd hyn yn cynnwys ystyried y potensial i ymestyn pecynnau CBT oedolion ar-lein i bobl ifanc 16-17 oed.

**7. Bod Llywodraeth Cymru yn rhoi arweiniad dros dro i wasanaethau iechyd ac addysg (a chyrff statudol perthnasol eraill) am y gefnogaeth y dylent ei darparu ar gyfer iechyd emosiynol ac iechyd meddwl mewn ysgolion. Dylai hyn nodi’r gefnogaeth y dylent ei ddisgwyl oddi wrth ei gilydd fel gwasanaethau statudol. Dylai’r arweiniad hwn barhau ar waith, a dylai gael ei ariannu’n ddigonol, hyd nes y caiff canfyddiadau’r cynlluniau peilot mewngymorth eu cyfleu i ni ac i eraill. Dylai’r arweiniad gael ei gyhoeddi cyn pen tri mis ar ôl cyhoeddi ein hadroddiad a’i adolygu ar ôl i’r rhaglenni peilot mewngymorth ddod i ben.**

Cynhaliwyd gweithdy rhanddeiliaid amlasiantaeth ym mis Medi 2018 lle gwnaethom ddatblygu ein bwriad strategol law yn llaw â rhanddeiliaid allweddol ar y gefnogaeth y dylai iechyd ac addysg fod yn ei darparu i ysgolion. Ailadroddwyd y bwriad hwn yng Nghynhadledd CCAC ym mis Ionawr a oedd yn canolbwyntio ar ddatblygu ffyrdd newydd o weithio rhwng iechyd a gwasanaethau cymdeithasol i gefnogi ysgolion.

Bydd ein Grŵp Gweinidogol yn archwilio'r llwybrau cymorth presennol a'r cyd-ddibyniaethau gwasanaeth cyhoeddus, gyda'r nod o sicrhau cysondeb a thegwch ledled Cymru. Er mwyn eu cefnogi yn hyn o beth, mae cynlluniau peilot mewngymorth CAMHS i ysgolion wedi mapio gwasanaethau cymorth presennol mewn ardaloedd lleol i lywio llwybrau atgyfeirio. Mae llwybrau atgyfeirio wedi'u datblygu a'u nodi i gefnogi ysgolion ar gyfer ymyrraeth gynnar a gwasanaethau mwy arbenigol. Mae hyn yn cynnwys cymorth ar gyfer lles meddyliol i ddisgyblion a staff. Mae cynlluniau gwerthuso ar gyfer y mewngymorth ar waith, a disgwylir adroddiad interim ym mis Rhagfyr 2019 (adroddiad

terfynol ym mis Rhagfyr 2020). Bydd hyn yn darparu tystiolaeth o effeithiolrwydd llwybrau atgyfeirio a dealltwriaeth o argaeledd gwasanaethau ar gyfer atgyfeirio.

Bydd angen adolygu'r rhain ymhellach yn unol â'n cynlluniau i gryfhau Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Sylfaenol Lleol, fel y gall iechyd meddwl gofal sylfaenol weithio'n effeithiol a darparu gwasanaethau lle bo'n briodol ar gyfer lleoliadau ysgol. Bydd angen i gynlluniau gwella BILl ar gyfer 2019-20 ddangos cysylltiad clir â'r dull ysgol gyfan a byddwn yn cyflwyno cynigion manylach wrth i'n cynlluniau ddatblygu drwy gydol 2019.

**8. Bod Llywodraeth Cymru yn cynnal cynllun peilot o rôl "athro cyfarwyddyd" yng Nghymru, neu fabwysiadu model arall sy'n dyrannu cyfrifoldeb dros iechyd emosiynol ac iechyd meddwl disgyblion i aelod arweiniol o staff addysgu neu staff nad ydynt yn addysgu.**

Ein nod yw hyrwyddo diwylliant ysgol gyfan lle mae pawb yn gyfrifol am gefnogi disgyblion, cydweithwyr a'u lles eu hunain. Fodd bynnag, er y gall rôl a chyfrifoldeb fod gan gorff cyfan yr ysgol, ni all pob un ohonynt fod yn atebol. Mae angen i ni fod yn glir mai uwch dîm arweinyddiaeth yr ysgol sy'n gyfrifol yn y pen draw am gydymffurfiaeth, a sicrhau bod lles emosiynol a meddyliol yn treiddio trwy bob agwedd ar amgylchedd yr ysgol.

Fodd bynnag, er mwyn cefnogi'r tîm arweinyddiaeth, a chynorthwyo i ddatblygu a gweithredu fframwaith dull ysgol gyfan mewn ysgolion unigol, dylai fod gan bob ysgol unigolyn enwebedig penodedig sy'n arwain ac yn gweithredu fel cydlynydd, ffynhonnell cyngor i eraill, ac fel eiriolwr a hyrwyddwr lles. Bydd gan ysgolion sy'n rhan o'r Cynlluniau Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru (WNHSS) Gydlynydd Ysgolion Iach yn barod a gall fod yn briodol i'r unigolyn hwn gyflawni'r ddwy rôl.

**9. Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y cynnydd o ran data rheoli mewn perthynas ag amseroedd aros gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol (LPMHSS) ar gyfer asesu ac ymyrraethau ar gyfer plant a phobl ifanc ers cychwyn darpariaethau Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010 ar gael.**

Ein bwriad yw y bydd data ar amseroedd aros Gwasanaethau Cymorth Iechyd Meddwl Gofal Sylfaenol Lleol (LPMHSS) ar gyfer asesu ac ymyriadau i blant a phobl ifanc yn cael ei gyhoeddi'n rheolaidd o fis Ebrill 2020 ymlaen. Mae Uned Gyflenwi'r GIG yn gweithio gyda BILlau a safonau data fel rhan o'r adolygiad cymheiriaid o Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) sylfaenol er mwyn sicrhau bod y data o ansawdd digon cadarn, cyn ei gyhoeddi.

**10. Bod Llywodraeth Cymru yn llunio cynllun gwella ar gyfer gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol (LPMHSS) lleol ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru. Dylai hyn ddarparu asesiad o'r lefelau presennol o ddarpariaeth, y galw a ragwelir am wasanaethau dros y 5-10 mlynedd nesaf, a'r lefel amcangyfrifedig o adnoddau sydd eu hangen i uno'r ddau. Dylai hefyd amlinellu sut y bydd LPMHSS yn ymgysylltu â gwasanaethau statudol a thrydydd sector eraill, ac yn darparu'r gwasanaethau cymorth canolraddol mwyaf hygyrch, priodol ac amserol i gau'r bwlch rhwng cymorth ar gyfer gwydnwch emosiynol ar y naill law, a CAMHS arbenigol ar y llall. Dylai'r cynllun gwella amlinellu'n glir y llwybrau sydd ar gael i blant a phobl ifanc fel bod y mynegbyst i bob lefel o wasanaeth, a rhyngddynt, yn fwy eglur ac yn symlach. Dylai gyfeirio'n benodol at sut y dylai LPMHSS gysylltu ag ysgolion.**

Er mwyn cynorthwyo byrddau iechyd i dargedu camau gweithredu i wella gwasanaethau, disgwylir i Uned Gyflenwi'r GIG adrodd ar yr adolygiad o Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) cynradd ym mis Ebrill 2019. Bydd yr Uned Gyflawni'n cynhyrchu adroddiadau unigol ar gyfer pob bwrdd iechyd ac adroddiad thematig ar gyfer Llywodraeth Cymru.

Byddwn yn buddsoddi £3.2 miliwn arall i gefnogi gwasanaethau CAMHS ac ymyrraeth gynnar yn 2019-20. Bydd rhan o'r arian hwn yn cael ei ddefnyddio'n benodol i gefnogi'r gwaith o weithredu camau gweithredu mewn ymateb i ganfyddiadau yn adroddiadau'r Uned Gyflenwi. Bydd cyllid yn cael ei ryddhau i fyrddau iechyd unwaith y cytunir ar gynlluniau gwella cadarn, sy'n cysylltu'n benodol â'r dull ysgol gyfan.

Yn y cyfamser, gwnaeth Gweinidog hi'n ofynnol i bob bwrdd iechyd baratoi cynlluniau gwella cychwynnol a oedd yn cynnwys:

- Gwella perfformiad yn erbyn targedau LPMHSS a chynaliadwyedd parhaus;
- Gweithio drwy Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i hyrwyddo ymyriadau sy'n cefnogi gwydnwch emosiynol a lles plant a phobl Ifanc;
- Hyfforddi a datblygu gweithwyr y tu allan i'r GIG sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc;
- Gweithgareddau atal ac ymyrryd yn gynnar sy'n lleihau'r galw ar CAMHS ac yn meithrin gwydnwch; a
- Gwella ansawdd data ynghylch iechyd meddwl a lles plant a phobl ifanc i lywio polisi ac ymarfer yn well.

Bydd mwy o fanylion am gynnydd yn cael eu cynnwys yn yr ymateb i'r rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc a fydd yn cael ei anfon at y Pwyllgor ar wahân.

**11. Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau:**

1. **bod llwybrau cyson ar gyfer pob gwasanaeth CAMHS arbenigol, yn seiliedig ar y meini prawf atgyfeirio cenedlaethol – unwaith y cytunir arnynt – yn cael eu gweithredu gan bob bwrdd iechyd (ac asiantaethau cysylltiedig lle bo hynny'n berthnasol) yng Nghymru o fewn chwe mis i'r adeg y caiff yr adroddiad hwn ei gyhoeddi;**
2. **Bod safonau diffiniedig yn cyd-fynd â phob llwybr er mwyn gallu mesur pob bwrdd iechyd a'u meincnodi'n gyson; a**

**Bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd fel bod modd dwyn byrddau iechyd a Llywodraeth Cymru i gyfrif am berfformiad mewn ffordd dryloyw a gwybodus.**

Mae'r gwaith hwn yn cael ei ddatblygu gan Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc a bydd diweddariad ar gynnydd yn cael ei gynnwys yn ymateb y rhaglen T4CYP a fydd yn cael ei anfon at y Pwyllgor ar wahân.

Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fonitro perfformiad byrddau iechyd o ran cyrraedd y targedau cyfredol ar gyfer amseroedd aros a bydd gweithredu'r set ddata graidd yn cryfhau'r data canlyniadau sydd ar gael.

**12. Bod Llywodraeth Cymru yn amlinellu fel mater o frys, ac o fewn tri mis i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn, sut y mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r heriau a wynebir gan y grŵp o blant a phobl ifanc nad ydynt yn cyrraedd y trothwy ar gyfer CAMHS arbenigol a lle nad oes gwasanaethau eraill ar gael iddynt – y "canol coll". Dylai hyn gynnwys**

1. **Y camau manwl y bydd yn eu cymryd yn ystod y chwe mis nesaf i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu a bod asiantaethau perthnasol yn cael eu dwyn i gyfrif am roi'r camau ar waith; a**
2. **Rhoi cyfrif o'r ystyriaeth a roddwyd i ganolbwyntio'r meini prawf atgyfeirio ar lefelau'r trallod a ddioddefir gan blant a phobl ifanc (gall ei ffynhonnell fod yn ymddygiadol, yn gymdeithasol [gan gynnwys anhwylderau sy'n gysylltiedig ag ymlyniad] a / neu'n feddygol ei natur), yn hytrach nag ar sail diagnosis a ddiffinir yn feddygol yn unig.**

Yn ogystal â'r rhaglen waith dull Ysgol Gyfan, mae yna weithgarwch ehangach fel rhan o'r rhaglen T4CYP a fydd yn cefnogi'r plant hynny nad ydynt yn cyrraedd y trothwy ar gyfer CAMHS. Mae hyn yn cynnwys Uned Gyflawni'r GIG yn adrodd ar yr adolygiad o Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) cynradd ym mis Ebrill 2019. Byddwn yn darparu £3.2m ychwanegol ar gyfer CAMHS yn 2019-20 a fydd yn cynnwys y gofyniad i fyrddau iechyd ailfodelu gwasanaeth tuag at ddull mwy ataliol. Yn ychwanegol, rydym yn darparu £1.4m i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol gryfhau gwasanaethau haen isel yn y gymuned.

**13. Bod Llywodraeth Cymru yn llunio cynllun adfer ar unwaith ar gyfer gwasanaethau niwroddatblygiadol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i fynd i'r afael â'r amseroedd aros annerbyniol o hir a wynebir gan dros 1000 o blant a phobl ifanc.**
Rydym yn parhau i gefnogi Prifysgol Betsi Cadwaladr a thimau niwroddatblygiad ledled Cymru i ddarparu gwasanaethau o fewn y targed asesu 26 wythnos.

Ym mis Tachwedd 2018, darparodd Prifysgol Betsi Cadwaladr gynllun gwella er mwyn darparu gwasanaethau o fewn y targed o 26 wythnos.

Er gwaethaf rhai gwelliannau cychwynnol, mae gwasanaeth ND Prifysgol Betsi Cadwaladr yn parhau i gael trafferth i ateb y galw am y gwasanaeth ar draws y Gogledd. Er bod defnyddio darparwr allanol wedi darparu rhywfaint o gapasiti ychwanegol ar gyfer y cyfnod, mae'r BILl yn deall bod angen iddynt roi trefniadau ar waith i sicrhau bod capasiti'r gwasanaeth yn gallu bodloni'r galw cynyddol. Fel rhan o'r gwaith hwn, cynhaliodd y BILl archwiliad at wraidd y mater ym mis Ionawr a roddodd sicrwydd bod llwybr Niwroddatblygiad Cymru Gyfan wedi'i weithredu ar draws y tair ardal gyda gofal o ansawdd da yn cael ei ddarparu i'r plant a'r teuluoedd hynny sy'n cael eu hasesu a'u cefnogi. Fodd bynnag, cydnabu'r ymarferiad hwn fod amseroedd aros yn peri pryder sylweddol a'u bod ar gofrestrau risg yr ardal, gydag achosion busnes i gynyddu capasiti yn y gwasanaeth yn cael eu trafod.

Mae'r timau ardal wedi datblygu cynlluniau gweithredu i wneud gwelliannau fesul cam ac maent yn cydweithio'n agos i ddatblygu'r model gwasanaeth mewn partneriaeth ag atgyfeirwyr, yn enwedig addysg a'r asedau cymunedol. Er enghraifft, cymorth rhianta gan y Tîm o Amgylch y Teulu a Chanolfannau Teuluoedd mewn ymgais i leihau'r galw a gwella'r mynediad at gymorth amgen.

Bydd Llywodraeth Cymru yn cyfarfod â'r Cyfarwyddwyr Gweithredol perthnasol ddechrau mis Ebrill i drafod ymhellach.

**14 Bod Llywodraeth Cymru, cyn pen chwe mis o ddyddiad yr adroddiad hwn, yn blaenoriaethu gwaith i sicrhau bod mesurau perfformiad ansoddol yn cael eu datblygu law yn llaw â'r data presennol am yr amser aros rhwng atgyfeirio ac asesu. Dylai'r wybodaeth hon fod ar gael i'r cyhoedd fel y gellir dwyn y rhai sy'n gyfrifol i gyfrif am gyflenwi gwasanaethau a pherfformiad.**

Yn dilyn adolygiad rhwydwaith CAMHS o'r data a gesglir ar hyn o bryd o fewn gwasanaethau CAMHS, cyflwynwyd argymhellion i fwrdd llywio'r prosiect. Cytunodd y Bwrdd ar y set ddata graidd sy’n symud ymlaen i gam nesaf y broses bellach.

Yn ogystal, datblygwyd set gyffredin o ffurflenni i'w defnyddio ar draws gwasanaethau iechyd meddwl, gan gynnwys ffurflenni sy'n benodol i CAMHS. Bydd y ffurflenni hyn yn cael eu treialu cyn i'r system fynd yn fyw.

Mae'r gweithgarwch hwn yn golygu y bydd y set ddata graidd yn cael ei gweithredu'n llawn erbyn 2022 yng Nghymru a bydd set o adroddiadau sy'n dangos canlyniadau i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau yn cael eu casglu o'r adnodd data cenedlaethol, trwy Wasanaeth Gwybodeg GIG Cymru. Mae hwn yn ymrwymiad craidd yng nghynllun cyflawni drafft Law yn Llaw at Iechyd Meddwl 2019-2022.

Bydd diweddariad ychwanegol ar gynnydd yn cael ei gynnwys yn ymateb y rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc a fydd yn cael ei anfon at y Pwyllgor ar wahân.

**15. Bod Llywodraeth Cymru, o fewn chwe mis i ddyddiad cyhoeddi’r adroddiad hwn, mewn perthynas â gofal argyfwng a gofal y tu allan i oriau:**

1. **Yn gweithio gyda heddluoedd Cymru i ystyried model brysbennu ar gyfer Cymru gyfan a fyddai’n sicrhau bod ymarferwyr iechyd meddwl ar Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc yng Nghymru 101 gael yn ystafelloedd rheoli’r heddlu i roi cyngor pan fydd plant a phobl ifanc (a Grwpiau oedran eraill, os yn briodol) yn wynebu argyfwng;**
2. **Yn amlinellu sut y gellid cyfeirio adnoddau at alluogi timau argyfwng ym mhob bwrdd iechyd i ddarparu hyfforddiant a rhaeadru arbenigedd i wasanaethau rheng flaen eraill, yn enwedig cydweithwyr mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys, mewn ardaloedd ar y gororau (i wella cysylltiadau trawsffiniol â’r canolfannau hynny a ddefnyddir amlaf gan gleifion sy’n byw yng Nghymru ), ac mewn ysgolion (i wneud sgyrsiau am hunanladdiad a hunan-niweidio yn benodol yn fater o drefn);**
3. **Yn sicrhau bod y byrddau iechyd yn darparu cymorth dilynol ar ôl rhyddhau, yn darparu gwybodaeth am sut mae’r byrddau iechyd yn monitro’r ddarpariaeth hon, ac yn ymrwymo i sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael i’r cyhoedd er mwyn bod yn dryloyw ac yn atebol;**
4. **Yn sicrhau bod yr holl fyrddau iechyd yn cydymffurfio â’r gofyniad i gadw gwelyau dynodedig y gellid eu staffio’n ddigonol ar gyfer pobl ifanc dan 18 oed mewn argyfwng, sy’n nodi sut y bydd hyn yn cael ei fonitro a sut y bydd adroddiad yn cael ei lunio amdano yn y dyfodol, a pha gamau a gymerir os nad yw gwelyau o’r fath ar gael;**
5. **Yn gweithredu’n gyflym ac mewn ffordd unffurf ar draws y byrddau iechyd i gynnig un pwynt mynediad at wasanaethau arbenigol, er mwyn sicrhau mynediad amserol a phriodol i gymorth, boed yn gymorth brys neu’n gymorth arall; ac**
6. **Yn myfyrio ar ganlyniadau’r adolygiad o ofal argyfwng, yn amlinellu beth yn fwy sydd angen ei wneud i ddarparu gwasanaeth gofal argyfwng 24/7 diogel a chost-effeithiol ym mhob rhan o Gymru, sut y gwneir hynny, ac erbyn pryd.**

Rhan 1 a 6

Mae'r Grŵp Sicrwydd Gofal mewn Argyfwng Iechyd Meddwl wedi datblygu cynllun cyflawni cenedlaethol newydd ac mae grwpiau Iechyd Meddwl a Chyfiawnder Troseddol Rhanbarthol yn adnewyddu cynlluniau lleol i gyd-fynd â’r cynllun. Yn sail i'r ymrwymiad i wella gofal argyfwng o'r dechrau i'r diwedd, mae cytundeb bod angen datblygu dulliau ar

lefel system ac sy’n seiliedig ar dystiolaeth i alluogi mynediad teg at ofal argyfwng da ledled Cymru. Cytunwyd ar y dull gweithredu canlynol ac mae'n cael ei weithredu i wella gofal argyfwng:

- 1. Cryfhau'r set ddata ar gyfer monitro'r defnydd o adran 135 a 136 yng Nghymru

Datblygwyd set ddata ddiwygiedig gan Gofal mewn Argyfwng Iechyd Meddwl (MHCC) ac mae'n cael ei threialu gan yr holl bartneriaid cyn ei gweithredu'n ffurfiol, yn amodol ar gymeradwyaeth drwy Fwrdd Safonau Gwybodaeth Cymru (WISB). Bydd y set ddata yn cael ei chyhoeddi'n chwarterol (yn flynyddol ar hyn o bryd) i gynorthwyo monitro mwy rheolaidd wrth ddisgwyl am sicrwydd ynghylch cywirdeb ystadegol adrodd. Bydd hyn yn dibynnu ar bob asiantaeth yn cwblhau data gweithredol perthnasol. Cedwir y gallu i adrodd a monitro ar y defnydd o a.135 neu a.136 ar gyfer rhai dan 18 oed yn y set ddata.

- 2. Cefnogi dulliau i ddatblygu'r dystiolaeth am yr hyn sy'n gweithio

Gwnaethom sicrhau bod gofal argyfwng a gofal y tu allan i oriau yn flaenoriaeth yn y Gronfa Trawsnewid Iechyd Meddwl yn 2018-19. Sicrhawyd tua £1 miliwn i gefnogi’r gwaith o ehangu rhaglenni cyfredol a phrofi dulliau newydd. Mae'r cynlluniau a ariennir yn cynnwys cynllun peilot brysbennu stryd ym Mhrifysgol Betsi Cadwaladr sy'n rhoi ymarferwyr iechyd meddwl yn ystafelloedd rheoli'r heddlu. Mae cynllun peilot tebyg yng Ngwent mewn partneriaeth rhwng Heddlu De Cymru a Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan yn cael ei werthuso'n annibynnol a cheir adroddiad ar hynny yn yr haf.

Mae gwella gofal mewn argyfwng a gofal y tu allan i oriau yn flaenoriaeth i GIG Cymru yn 2019-20 a bydd arian ychwanegol i gefnogi hynny. Dyrennir cyllid unwaith y cytunir ar gynlluniau gwella.

- 3. Datblygu ein dealltwriaeth o sut mae pobl yn cael mynediad at gymorth iechyd meddwl brys/y tu allan i oriau

Mae'r holl bartneriaid yn cydnabod yr angen i ddeall yn well sut mae pobl, sy'n cael eu categoreiddio fel rhai sydd â phroblemau sy'n ymwneud ag iechyd meddwl, yn cael mynediad at wasanaethau ac yn llywio gwelliannau systemig. Bydd yr Uned Gydweithredol a Chomisiynu Genedlaethol yn cael ei chomisiynu yn 2019-20 i wneud adolygiad cyflym, brys o fynediad iechyd meddwl i helpu i ddeall:

**Cysylltu -** *Pryd mae pobl yn cysylltu â'r gwasanaeth? Pa wasanaethau maen nhw'n cysylltu â nhw?*
**Cyflwr -** *Pa broblemau mae pobl yn cysylltu â gwasanaethau yn eu cylch, salwch meddwl, trallod emosiynol, camddefnyddio sylweddau, ynysu cymdeithasol?*
**Trawsgludo -** *Pan fydd pobl yn cysylltu â'r gwasanaeth sut maen nhw'n symud o'r pwynt cyswllt i'r pwynt darparu gwasanaeth?*

Rhan 4. Fel rhan o'n gwaith monitro arferol, rydym wedi adolygu'r Digwyddiadau Anffafriol Difrifol (SUIs) sy'n ymwneud â gwelyau dynodedig dros gyfnod o bedair blynedd. Yn ogystal, mae Rhwydwaith ED CAMHS yn adolygu'r defnydd o welyau dynodedig ledled Cymru yn rheolaidd.

Fel y nodir yng nghanllawiau Derbyniadau Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn 2015, rydym yn disgwyl i BILlau roi gwybod i Lywodraeth Cymru am eu wardiau dynodedig yn flynyddol erbyn 1 Ebrill, ac i egluro a yw derbyniadau plant a phobl ifanc dan 18 wedi bod i wardiau dynodedig neu rai heb eu dynodi. Yn y pythefnos nesaf byddwn yn ysgrifennu at

fyrddau iechyd i ymgymryd â'n gwaith monitro blynyddol. Mae hyn yn rhoi cyfle pellach i atgoffa sefydliadau o'u cyfrifoldebau yn y maes hwn.

Bydd diweddariad T4CYP Rhan 5 yn rhoi manylion pellach am y cynnydd.

**16. Bod Llywodraeth Cymru, mewn perthynas â hunanladdiad yn benodol, yn gweithio gyda sefydliadau arbenigol:**

1. **16. I ddarparu, o fewn tri mis i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn, ganllawiau i ysgolion ynghylch siarad am hunanladdiad a hunan-niweidio, i chwalu'r syniad y bydd unrhyw drafodaeth yn arwain at ymateb "heintus";**
2. **I roi blaenoriaeth i ddarparu canllawiau i ysgolion lle bu hunanladdiad neu amheuaeth o hunanladdiad; ac**
3. **Yn sicrhau bod hyfforddiant iechyd meddwl sylfaenol, gan gynnwys sut i siarad am hunanladdiad, yn rhan o hyfforddiant cychwynnol athrawon a datblygiad proffesiynol parhaus, fel bod yr holl athrawon yn gallu siarad am hynny**

Ym mis Rhagfyr 2018, galwodd Adroddiad Busnes Pawb ar Atal Hunanladdiad yng Nghymru gan y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar Lywodraeth Cymru i weithredu'r argymhelliad hwn.

Ailadroddodd ein hymateb ein bod wedi derbyn mewn egwyddor, gan nodi bod hyn wedi'i gynnwys yng nghylch gwaith y Grŵp Gweinidogol a bod y gweithgaredd hwnnw wedi dechrau, fel rhan o'n Strategaeth Siarad â Mi 2, gan y Grŵp Cynghori Cenedlaethol ar Hunanladdiad a Hunan-niwed i fynd i'r afael ag agweddau ar yr argymhelliad hwn:

Cyhoeddir canllawiau ym mis Ebrill 2019 ar reoli Hunan-niwed a Hunanladdiad mewn ysgolion ar ôl gweithdy cydweithredol gyda chynrychiolwyr addysg, iechyd a'r Samariaid sy'n adeiladu ar arfer da presennol.

Yn ogystal, mae arweinydd y Grŵp Cynghori yn gweithio gyda Mind a Choleg Brenhinol y Seiciatryddion ar becyn dysgu seiliedig ar sgiliau a chymhwysedd i ysgolion ar hunan-niwed gyda ffilmiau ac adnoddau eraill a fydd ar gael ar gyfer hyfforddi staff ysgolion.

Byddwn yn gweithio gyda'r Grŵp Cynghori i gefnogi eu gwaith ac i sicrhau bod ysgolion yn ymwybodol o'r adnoddau gwerthfawr hyn ac yn eu defnyddio unwaith y byddant ar gael.

Mae llwybrau atal hunan-niwed/hunanladdiad wedi'u datblygu hefyd yn ardaloedd peilot mewngymorth CAMHS i ysgolion. Bydd hyn yn cael ei rannu gydag ysgolion yn yr ardaloedd peilot er gwybodaeth. Mae hyfforddiant Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl yn cael ei roi ar waith mewn ysgolion mewn dwy ardal beilot, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Byddwn yn gwerthuso'r holl weithgareddau mewngymorth er mwyn sicrhau eu heffaith a'u heffeithiolrwydd. Mae gweithgarwch gwerthuso yn mynd rhagddo, a dylai'r canlyniadau cychwynnol fod ar gael ym mis Rhagfyr 2019.

Yn ogystal, bydd diwygio addysg gychwynnol athrawon (AGA) yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr achrededig gynllunio a chyflwyno cyrsiau sy'n cefnogi pedwar diben cwricwlwm newydd i Gymru ac yn mynd i'r afael â'r chwe maes dysgu a phrofiad, gan gynnwys Iechyd a lles. O dymor yr hydref 2018 ymlaen, mae Arloeswyr Dysgu Proffesiynol wedi bod yn arwain cylchoedd o ymchwiliad gweithredu gyda'r rhwydwaith ysgolion ehangach, gan ganolbwyntio ar ryngweithio cynnar â'r cwricwlwm drafft i nodi gofynion dysgu proffesiynol sy'n ofynnol ar unwaith.

**17. Bod Llywodraeth Cymru:**

1. **Yn mynd ati fel mater o frys i fynd i'r afael â'r lleihad yng nghapasiti'r uned cleifion mewnol yn y Gogledd**
2. **Yn darparu, yn ei hymateb i'r adroddiad hwn, gynllun gweithredu sy'n manylu ar y cymorth ymarferol y bydd yn ei roi i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr er mwyn i'r uned, erbyn haf 2018, allu ailddechrau darparu'r capasiti a gomisiynwyd ar ei chyfer, sef 12 gwely**

Mae gennym drefniadau cadarn ar waith i sicrhau ansawdd a diogelwch lleoliadau cleifion mewnol arbenigol ac i reoli'r angen am wasanaethau pan fydd cyfyngiadau mewn uned benodol ar waith tra bod unrhyw waith gwella angenrheidiol yn cael ei wneud. Mae hyn yn cynnwys gwneud lleoliadau drwy'r contract fframwaith cenedlaethol i leoli unigolion mewn cyfleusterau annibynnol addas.

Rhoddodd Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC) a Llywodraeth Cymru ddiweddariad penodol i Gadeirydd y Pwyllgor ar y maes gwaith hwn mewn llythyr ym mis Chwefror.

Rhoddwyd Gwasanaeth Ambiwlans y Gogledd-orllewin (NWAS) mewn proses ddwysáu ffurfiol gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (WHSSC) ym mis Awst 2017. Dechreuwyd y broses oherwydd lefelau defnydd gwlâu anfoddhaol gyda pherfformiad yn disgyn yn is na 50% a'r sgil-effaith dilynol yn nifer y lleoliadau y tu allan i'r ardal (OoA).

Un ffactor pwysig a gyfrannodd at y perfformiad gwael oedd y gostyngiad mewn gwelyau gweithredol o'r capasiti a gomisiynwyd o 12 i 6 oherwydd materion gweithlu arwyddocaol gan gynnwys salwch a recriwtio.

Bu gwelliant amlwg mewn perfformiad yn ystod 2018/19 gydag uned NWAS yn gweithredu gydag o leiaf 10 gwely ar gael. Ar adegau penodol yn ystod y flwyddyn mae hyn wedi cynyddu i'r 12 gwely llawn ond mae hyn yn parhau i amrywio yn sgil craffter cleifion a lefelau staffio. Bwriedir cynnal y cyfarfod uwchgyfeirio nesaf ddechrau mis Ebrill.

**18. Bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio canlyniadau'r adolygiad o gapasiti cleifion mewnol yng Nghymru fel sail:**

1. **I ddarparu cymaint o wasanaethau mor agos â phosibl i'w cartrefi ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n byw yng Nghymru;**
2. **I gymryd rhan mewn deialog â GIG Lloegr ynghylch opsiynau ar gyfer creu gwelyau arbenigol iawn i gleifion mewnol a allai wasanaethu poblogaethau bob ochr i'r ffin;**
3. **I archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio unrhyw gapasiti sbâr ar gyfer cleifion mewnol ar ystâd y GIG i ddatblygu gwasanaethau "cam-i-lawr" ar gyfer pobl sy'n gadael lleoliadau.**

Rhan 1. Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau y dylai pobl ifanc sydd angen gofal cleifion mewnol dderbyn hyn mor agos i'w cartref â phosibl, gyda'r ddarpariaeth ddiofyn yn un o'r ddwy uned cleifion mewnol CAMHS yng Nghymru. Fodd bynnag, bydd adegau pan fydd angen gofalu am bobl ifanc sydd angen gofal anghenion sylweddol mewn canolfannau arbenigol iawn yn Lloegr sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer y DU i gyd.

Rhan 2. Trafodwyd papur adolygu gan y Bwrdd Rhwydwaith Cenedlaethol ym mis Rhagfyr. Mae'r argymhellion yn cael eu hystyried gan Rwydwaith CAMHS, QAIS a WHSSC a byddant yn llywio'r adolygiad o'r Fframwaith Cenedlaethol yn ystod yr haf.

Mae WHSSC yn gweithio gyda'r ddwy uned cleifion mewnol sydd gan y GIG i fynd i'r afael â materion allweddol yn ymwneud â'r gweithlu y bydd angen eu datrys i gefnogi datblygiadau yn y dyfodol.

**19. Bod Llywodraeth Cymru, yng ngoleuni pwysigrwydd y cyfnod pontio o ran gallu parhau i ymgysylltu â'r gwasanaethau cymorth, a bregusrwydd penodol pobl ifanc wrth iddynt dyfu'n oedolion, yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd ac awdurdodau lleol lunio adroddiad bob chwe mis:**

1. **Yn nodi'r camau y maent wedi'u cymryd i sicrhau bod y canllawiau pontio yn cael eu gweithredu;**
2. **Yn asesu i ba raddau y maent yn cydymffurfio â'r canllawiau; ac**
3. **Yn nodi manylion yr heriau y maent yn eu hwynebu wrth geisio darparu gwasanaethau pontio di-fwlch a sut y maent yn lliniaru'r risgiau hynny.**

Rhan 1
Y gwaith i adolygu canllawiau a phasbort Pontio Gofal T4CYP yn ffurfiol erbyn mis Rhagfyr 2020. Bwriedir i'r gwaith hwn ddechrau ym mis Mehefin 2019 a chychwyn gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid Ieuenctid a fydd yn ystyried y canllawiau a'r pasbort ac yn bwydo'n ôl i T4CYP.

Mae Llywodraeth Cymru yn datblygu Canllawiau Pontio Gofal ar gyfer gwasanaethau ehangach y GIG hefyd. Rydym yn gweithio i sicrhau bod Canllawiau Pontio Gofal GIG ehangach yn adlewyrchu anghenion a gofynion plant a phobl ifanc o fewn gwasanaethau iechyd meddwl. Ar ôl caniatáu 12 mis ar gyfer sefydlu'r Canllawiau Pontio Da, ein ffocws yn 2019 fydd profi gweithrediad y canllawiau hyn a fydd yn ei dro yn llywio'r adolygiad ffurfiol yn 2020.

Fel rhan o Ffrwd Waith Pontio Gofal T4CYP, nodwyd bod gwahanol fodelau pontio o fewn gwasanaethau sy'n cwmpasu unigolion 0-25 oed yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Bydd Llywodraeth Cymru yn comisiynu adolygiad llenyddiaeth o dystiolaeth ryngwladol a chenedlaethol cyn bo hir, ochr yn ogystal â grŵp trafod bach/carfan fach i ddarparu tystiolaeth drwy brofiad. Cyflwynir adroddiad ar y gwaith hwn erbyn mis Hydref 2019 a bydd yn cael ei ddefnyddio fel sail i'r camau nesaf.

Rhan 2 a 3
Bydd y gwaith yn ystod 2019 yn darparu rhagor o wybodaeth i bennu lefel y gydymffurfiaeth â'r canllawiau a'r heriau. Byddwn yn ceisio cael manylion hefyd am y camau y mae byrddau iechyd wedi'u cymryd i liniaru unrhyw broblemau y maent yn eu profi.

**20. Bod Llywodraeth Cymru, yng ngoleuni'r amrywiad presennol yn y ddarpariaeth a'r rôl hanfodol sydd gan ymyrraeth therapiwtig i'w chwarae, yn llunio cynllun gweithredu cenedlaethol ar gyfer darparu therapïau seicolegol i blant a phobl ifanc. Fan lleiaf, dylai hyn gynnwys:**

1. **Amlinelliad o'r modd y bydd y gwasanaethau sylfaenol, eilaidd ac arbenigol yn cydweithio i sicrhau bod ystod o wasanaethau therapiwtig yn cael eu darparu'n effeithiol ar draws y sbectrwm angen;**
2. **Cynlluniau penodol ar gyfer datblygu a chynnal llif o ymarferwyr therapiwtig sydd wedi'u hyfforddi'n ddigonol (ac yn cael eu rheoleiddio / cofrestru);**
3. **Manylion yr adolygiad arfaethedig o'r tueddiadau rhagnodi ar gyfer plant a phobl ifanc â phroblemau emosiynol, ymddygiadol ac iechyd meddwl, gan adeiladu ar waith blaenorol yr Athro Ann John, gan gynnwys asesiad a yw ymyriadau eraill wedi effeithio ar y tueddiadau hyn, i ddechrau yn y 12-18 mis nesaf; ac**

**4. Asesiad o oblygiadau ariannol a fforddiadwyedd y cynllun, a sut y caiff ei ganlyniadau eu mesur.**
Yn dilyn cyhoeddi Matrics Cymru yn 2017 mae adolygiad o'r gwersi a ddysgwyd yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd a bydd yn llywio datblygiad y Matrics ar gyfer plant a phobl ifanc. Yn y cyfamser, mae pob bwrdd iechyd wedi cymryd camau cychwynnol, gyda chefnogaeth cyllid ychwanegol i wella gwasanaethau yn eu hardal.

Mae pob bwrdd iechyd wedi cyflwyno cynigion wedi'u costio yn erbyn y gronfa therapïau seicolegol yn 2018/19. Cytunwyd y bydd y gronfa hon yn parhau ym mlynyddoedd ariannol y dyfodol gyda gwaith monitro.

Mae hyn yn cynnwys gwelliannau i'r casgliad o therapïau a gynigir, hyfforddiant a datblygiad y gweithlu, lleihau amseroedd aros a gweithio'n well rhwng gofal sylfaenol ac eilaidd.

Bydd diweddariad ar gynnydd yn cael ei gynnwys yn ymateb y rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc a fydd yn cael ei anfon at y Pwyllgor ar wahân.

**21. Bod Llywodraeth Cymru, cyn pen chwe mis o ddyddiad yr adroddiad hwn, yn comisiynu adolygiad o’r gwasanaethau eiriolaeth a ddarperir ar hyn o bryd, a’r angen amdanynt, ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc sy’n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl – nid dim ond y rhai mewn lleoliadau cleifion mewnol. Dylid cynnal yr adolygiad hwn mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol megis y Comisiynydd Plant, y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol, darparwyr gwasanaethau a gomisiynwyd, a phlant a phobl ifanc. Yn seiliedig ar yr adolygiad, dylai Llywodraeth Cymru asesu pa mor ddilys fydd darparu cynnig gweithredol o eiriolaeth i bob plentyn a pherson ifanc sy’n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl a dylai gyhoeddi adroddiad llawn o’i chasgliadau.**
Bydd Llywodraeth Cymru a'r Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc yn comisiynu adolygiad ar y cyd o'r ddarpariaeth bresennol a'r angen am wasanaethau eiriolaeth ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n defnyddio'r holl wasanaethau iechyd meddwl erbyn yr haf. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gyflawni mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol gan gynnwys y Comisiynydd Plant, y Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol, darparwr gwasanaethau a gomisiynwyd a phlant a phobl ifanc, a bydd yn cyd-fynd â'r adolygiad ehangach o wasanaethau eiriolaeth mewn ymateb i argymhelliad y Comisiynydd Plant yn ei Hadroddiad Blynyddol diweddaraf.

**22. Bod Llywodraeth Cymru yn gweithio ar draws asiantaethau i sicrhau bod anghenion iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc yn cael eu hasesu wrth iddynt gael mynediad i ofal ac ar ôl derbyn gorchymyn atgyfeirio o fewn y system cyfiawnder ieuenctid, ac fel mater o drefn ar ôl hynny. Bydd hyn yn helpu i gynllunio darpariaeth ddigonol o gymorth amlddisgyblaethol i ddiwallu eu hanghenion, sy’n gymhleth yn aml iawn, mewn modd amserol a phriodol.**
Mae iechyd meddwl a lles plant a phobl ifanc mewn gofal yn flaenoriaeth allweddol yn Rhaglen Waith Gwella Canlyniadau ar gyfer Plant sy'n cael ei goruchwylio gan y Grŵp Gweinidogol Cynghorol ar Wella Canlyniadau ar gyfer Plant. Fel rhan o'r rhaglen waith, mae NSPCC a Voices from Care wedi llunio adroddiad ar iechyd emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal; enw’r adroddiad yw 'Gwrando. Gweithredu. Ffynnu'. Cyhoeddwyd yr adroddiad llawn a byddwn yn ystyried yr argymhellion mewn cyfarfod o’r Grŵp Cynghori Gweinidogol yn y dyfodol.

Bydd diweddariad ar gynnydd yn cael ei gynnwys yn ymateb y rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc a fydd yn cael ei anfon at y Pwyllgor ar wahân.

**23. Bod Llywodraeth Cymru, o fewn chwe mis i ddyddiad cyhoeddi'r adroddiad hwn, yn ymgymryd â darn o waith ar ddarparu cymorth emosiynol, ymddygiadol ac iechyd meddwl i blant sy'n derbyn gofal a phlant a fabwysiadwyd. Dylai hyn:**

1. **Gael ei hysbysu gan weithgaredd y Grŵp Cynghori Gweinidogol ar blant sy'n derbyn gofal a gwaith y Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc; ac**
2. **Ystyried, yn achos plant sy'n derbyn gofal, i ba raddau y mae cyrff cyhoeddus yn cydymffurfio â'u cyfrifoldebau fel rhieni corfforaethol i ddarparu'r cymorth corfforol ac emosiynol sydd ei angen arnynt.**

Yn ddiweddar, rydym wedi buddsoddi £15 miliwn yn y Gronfa Gofal Integredig i gefnogi gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal. Bydd Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn gweithio ar draws byrddau iechyd, awdurdodau lleol a sefydliadau trydydd sector i ddatblygu cynigion sy'n diwallu anghenion eu poblogaethau plant sy'n derbyn gofal. Mae canllawiau'r Gronfa Gofal Integredig yn annog cynigion sy'n cynnwys gwasanaethau cymorth therapiwtig ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi'u mabwysiadu.

Bydd diweddariad ar gynnydd yn cael ei gynnwys yn ymateb y rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc a fydd yn cael ei anfon at y Pwyllgor ar wahân.

**24. Bod Llywodraeth Cymru, o fewn tri mis i'r adroddiad hwn, yn gweithredu ar y dystiolaeth a gafwyd gan y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant fod angen iddi sefydlu grŵp trosfwaol "gyda dannedd" i reoli'r cydweithio sydd ei angen rhwng sefydliadau statudol a sefydliadau'r trydydd sector er mwyn darparu gwasanaethau cymorth ar gyfer iechyd emosiynol ac iechyd meddwl yn effeithiol ac amserol.**

Ers cyhoeddi adroddiad y pwyllgor, mae'r Cyd-grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol ar y Dull Ysgol Gyfan wedi'i gynnull. Mae hyn yn dwyn ynghyd y rhanddeiliaid strategol allweddol ar draws addysg, iechyd, y trydydd sector a'r sector cyhoeddus ehangach. Cefnogir y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol gan

- grŵp cyfeirio rhanddeiliaid i sicrhau bod yr holl asiantaethau amrywiol sy'n cyfrannu at gyflwyno dull ysgol gyfan yn ymgysylltu'n ystyrlon yn y rhaglen hon a
- Grŵp Rhanddeiliaid Ieuenctid er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael y cyfle i fynegi eu barn yn uniongyrchol hefyd wrth i weithgaredd fynd rhagddo.

Nid yw'r Cyd-grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol ar y Dull Ysgol Gyfan yn bodoli ar ei ben ei hun, ac mae'n perthyn i drefniadau ehangach sy'n goruchwylio, datblygu a sicrhau dulliau o wella iechyd meddwl a lles plant. Er enghraifft, mae'r Grŵp Cynghori Gweinidogol ar Wella Canlyniadau ar gyfer Plant yn parhau i gyflwyno rhaglen newid dair blynedd (2017-2020) a chynghori ar y cymorth ychwanegol wedi'i dargedu sydd ei angen ar draws y Llywodraeth i gyflawni canlyniadau gwell ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal. Mae hyn yn ychwanegol at Rwydwaith Iechyd Meddwl GIG Cymru, a sefydlwyd yn 2018 i ysgogi, hwyluso a galluogi newid trawsnewidiol a gwelliant parhaus ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl a gomisiynir a/neu a ddarperir gan y GIG.

Mae'r Grŵp Sicrwydd Cyflawni Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd wedi bod ar waith ers 2013 hefyd. Gyda'r grwpiau yn eu lle bellach i gefnogi Dull Ysgol Gyfan a Bwrdd Rhwydwaith Iechyd Meddwl Pob Oed Cymru Gyfan, mae swyddogion yn ystyried y gofynion ac aelodaeth addas ar gyfer y grŵp hwn.

Darperir diweddariad ar gynnydd gan y rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc yn yr ymateb a fydd yn cael ei anfon at y Pwyllgor ar wahân.

**25. Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod pob bwrdd iechyd yn ymateb yn brydlon ac yn gynhwysfawr i arolygon ar niferoedd y gweithlu a wneir gan y Colegau Brenhinol yng Nghymru. Bydd hyn yn helpu i ddylunio gwasanaethau sy'n ystyried y capasiti staffio ac ymateb mewn modd effeithiol ac arloesol i unrhyw brinder.**
Mae Addysg a Gwella Iechyd Cymru yn weithredol bellach a hwn yw'r sefydliad arweiniol ar gyfer cynllunio'r gweithlu. Fel rhan o'i gynllun gwaith, mae AaGIC yn datblygu Strategaeth Gweithlu i Gymru a fydd yn cynnwys y gweithlu sy'n darparu gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc.


Rydym yn dal i ddisgwyl i fyrddau iechyd ystyried unrhyw arolygon perthnasol a gynhelir sy'n effeithio ar gynllunio'r gweithlu ac, os yn briodol, i weithio gyda Cholegau Brenhinol ac eraill i lywio gwaith cynllunio gwasanaethau.

**26. Bod Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod y Rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc yn gwneud darn penodol a chynhwysfawr o waith ar y gwasanaethau iechyd emosiynol ac iechyd meddwl sydd ar gael yn Gymraeg.**
Bydd diweddariad ar gynnydd yn cael ei gynnwys yn ymateb y rhaglen Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc a fydd yn cael ei anfon at y Pwyllgor ar wahân.


**27. Bod Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd lunio adroddiadau am eu gwariant ar wasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc mewn ffordd unffurf er mwyn eu gwneud yn fwy atebol a thryloyw. Dylai'r data hwn gynnwys gwybodaeth am bob gwasanaeth, nid gwasanaethau eilaidd CAMHS arbenigol yn unig, a dylid ei ddadansoddi fesul maes (ee sylfaenol, eilaidd, argyfwng, therapiwtig, y trydydd sector ac ati).**
Rydym yn parhau i ganolbwyntio ar fonitro trwy ganlyniadau i'r bobl sy'n defnyddio gwasanaethau yng Nghymru. Bydd ein gweithgarwch o dan argymhelliad 14 sy'n ymwneud â mesurau perfformiad ansoddol yn rhoi mwy o wybodaeth am y modd y mae gwasanaethau'n cyflawni ledled Cymru.

Cyhoeddir y Datganiad Ystadegol blynyddol ar gyfer Cyllidebau Rhaglenni Gwariant y GIG ar ystadegau Cymru ac mae'n cwmpasu holl wariant y Byrddau Iechyd Lleol a gwariant Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, wedi'i ddadansoddi yn ôl rhaglen ofal, gan gynnwys gwariant ar wasanaethau gofal sylfaenol, megis meddygon teulu a deintyddion, yn ogystal â gwasanaethau gofal eilaidd, fel ysbytai. Cyhoeddir datganiad newydd ar gyfer 2017-18 ym mis Ebrill 2019.

Yr eiddoch yn gywir,



**Vaughan Gething AC/AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services



**Kirsty Williams AC/AM**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

**Atodiad A**

| **Crynodeb o'r cyllid a amlinellir yn yr ymateb** | **Cyfanswm** | **Math** |
|---|---|---|
| CAMHS (cyhoeddwyd Ionawr 2019)<br>• tua £2.5 miliwn i gefnogi'r Dull Ysgol Gyfan,<br>• tua £3.2 miliwn o gymorth ychwanegol ar gyfer CAMHS ac ymyrraeth gynnar, a<br>• tua £1.4 miliwn o gymorth ychwanegol ar gyfer ymyrraeth ataliol ac ymyrraeth gynnar lefel isel yn y gymuned a gyfeirir drwy'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. | £7.1 miliwn | Gwariant rheolaidd |
| Grant Cymorth Ieuenctid<br>• £2.5 miliwn i fynd i'r afael â materion iechyd meddwl a lles meddyliol/emosiynol trwy ddulliau gwaith ieuenctid,<br>• £3.7 miliwn i fynd i'r afael â digartrefedd ymhlith pobl ifanc, a<br>• cynnydd o 10% yn y gyllideb graidd sy'n gysylltiedig â'r grant, sy'n canolbwyntio ar waith ieuenctid a gweithgareddau ymgysylltu a datblygu ieuenctid. | £10 miliwn | Cyllid grant |
| Ysgolion Bro<br>ar gael ar gyfer gwaith a fydd yn ymestyn gwasanaethau ysgol i deuluoedd a'r gymuned ehangach | £15 miliwn | Cynlluniau peilot drwy 2019/20 |
| Mae'r Dull Cenedlaethol ar gyfer Dysgu Proffesiynol ar gyfer athrawon, sy'n cefnogi'r gwaith o gyflwyno £24 miliwn wedi cael ei ymrwymo i gefnogi dysgu proffesiynol dros 18 mis<br>(£9 miliwn yn 2018/19 a £15 miliwn yn 2019/20) | £24 miliwn | 2018/19 a 2019/20 yn unig |
| £15 miliwn i'r Gronfa Gofal Integredig i gefnogi gwasanaethau atal ac ymyrraeth gynnar ar gyfer plant a phobl ifanc sydd â phrofiad o ofal. | £15 miliwn | 2019/20 a 2020/21 yn unig |
| Mae gwella gofal argyfwng a'r tu allan i oriau yn flaenoriaeth i GIG Cymru, £1 miliwn ar gyfer 2018-19 a gefnogir gan arian ychwanegol (swm i'w gadarnhau yn 2019-20). | £1 miliwn | 2018/19 |
| Arian ychwanegol ar gyfer therapïau seicolegol o £5.5 miliwn bob blwyddyn o 2018-19 ymlaen i gefnogi gweithrediad Matrics Cymru, gan gynnwys ar gyfer plant a phobl ifanc. | £5.5 miliwn | Gwariant rheolaidd |
| Cyllid ychwanegol o £250,000 ers 2015-16 i gefnogi anghenion pobl ifanc yn y system cyfiawnder ieuenctid. | £250,000 | Gwariant rheolaidd |
| Cyllid ar gyfer y cynllun peilot mewngymorth CAMHS i ysgolion, i brofi nifer o ddulliau o weithio ar y cyd ar draws addysg, y GIG a'r trydydd sector. | £1.4 miliwn | Peilot yn dod i ben yn haf 2020 |

**Atodiad B**

**Membership of the Joint Ministerial Task and Finish Group**

| | |
|---|---|
| Minister for Health and Social Services and Minister for Education | Joint Chairs |
| Chair Children, Young People and Education Committee | Lynne Neagle AM[1] |
| Children's Commissioner for Wales | Sally Holland [2] |
| LHB Vice Chair representative | Charles Janczewski |
| NHS Lead Chief Executive for Mental Health | Carol Shillabeer |
| CMO Adviser on Child and Adolescent Psychiatry | Dr Dave Williams |
| Public Health Wales Director of Health Improvement | Dr Julie Bishop |
| Association Directors of Education Wales | Aled Evans |
| Primary Head-teacher | Paula Vaughan |
| Secondary Head-teacher | Chris Parry |
| Association Directors of Social Services, Heads of Children's Services | Andrew Jarrett |
| WG Director Mental Health, Corporate Services and Governance | Joanna Jordan |
| WG Director of Education | Steve Davies |
| WG Director of Social Services and Integration | Albert Heaney |
| WG Director Communities & Tackling Poverty | Jo-Anne Daniels |
| Chief Medical Officer | Dr Frank Atheron |
| WG SMO (GPs) | Dr Liz Davies |
| Chief Nursing Officer | Prof. Jean White |
| Estyn | Mark Campion |
| LA Schools Consortia | Debbie Harteveld |
| DECIPHer (schools health research network) | Prof Simon Murphy |
| LHB clinical psychologist | Liz Gregory |
| WLGA | Cllr Huw David |

[1] observer
[2] observer